Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

Darparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl

"Pam bod pobl ifanc anabl bob tro'n cael eu hystyried olaf?"

CYNNWYS **Tudalen**

Cyflwyniad y Cadeirydd		1
Aelodau'r Pwyllgor		3
Cyflwyniad		4
Pennod 1	Fframwaith deddfwriaeth a pholisi ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc anabl	9
Pennod 2	Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth	17
Pennod 3	Trafnidiaeth	37
Pennod 4	Byw yn annibynnol	43
Pennod 5	Materion eraill	52
Atodiadau		
Atodiad A	Crynodeb o'r argymhellion	55
Atodiad B	Cylch gorchwyl llawn a chwmpas ar gyfer yr adolygiad	62
Atodiad C	Yr hyn rydym wedi'i ddysgu	69
Atodiad Ch	Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad cychwynnol	73
Atodiad D	Tystiolaeth lafar ac ymweliadau	76
Atodiad Dd	Cyfranogwyr y Grwp Cyfeirio	78

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Penderfynodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ymgymryd ag adolygiad polisi o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl yn gyntaf ym mis Hydref 2003, ar ôl cael maniffesto'r bobl ifanc anabl a oedd yn ymwneud â threfnu'r Gyngres Ryngwladol gyntaf erioed ar gyfer Pobl Ifanc Anabl, 'Hawliau ar Waith', a gynhaliwyd yn Abertawe. Nododd y maniffesto nifer o faterion pwysig a oedd yn effeithio ar allu'r bobl ifanc i reoli eu bywydau a chyflawni eu llawn botensial. 'Dim byd amdanom ni hebddom ni' yw'r arwyddair a fabwysiadwyd gan y Gyngres, a oedd yn fenter a ddeilliodd o Flwyddyn Ewropeaidd Pobl Anabl 2003. Mae'n adlewyrchu'r ffaith bod gwasanaethau yn hanesyddol wedi cael eu darparu i bobl ifanc anabl gan bobl nad ydynt yn anabl, heb i'r bobl ifanc eu hunain gael cyfle gwirioneddol i leisio eu barn o ran yr hyn maent ei eisiau a'r hyn sydd ei angen arnynt. Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r arwyddair 'dim byd amdanom ni hebddom ni' ar gyfer ei adolygiad.

Mae adolygiad y Pwyllgor yn seiliedig ar hawliau, ac i sicrhau y caiff ei lywio gan faterion sy'n bwysig i bobl ifanc anabl, ac nid gan unrhyw agenda arall, penderfynodd y Pwyllgor sefydlu Grwp Cyfeirio o bobl ifanc anabl i'w gynghori drwy gydol y broses adolygu. Cred y Pwyllgor fod hon yn ymagwedd unigryw a dysgwyd llawer o wersi ganddi. Caiff y gwersi hyn eu cynnwys yn yr adroddiad, fel y gall eraill elwa ar y profiad.

Mae'r Grwp Cyfeirio wedi cyfarfod ar wahân i'r Pwyllgor ddeuddeg o weithiau, ac mae ei aelodau wedi cyfranogi'n uniongyrchol mewn naw sesiwn dystiolaeth - yn holi cwestiynau ochr yn ochr ag Aelodau'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i aelodau'r grwp cyfeirio, eu gweithwyr cymorth a'u teuluoedd, a'r sefydliadau y maent yn gysylltiedig â hwy, am eu gwaith caled, eu hamser, eu hegni a'u brwdfrydedd wrth weithio gyda'r Pwyllgor.

Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb yr hyrwyddiad proffesiynol a ddarparwyd gan Barnardo's Cymru, sydd wedi rhannu ei brofiad cyfoethog o gyfranogi ac ymgynghori â phobl ifanc. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Gomisiwn Hawliau Anabledd Cymru, y mae eu Cyfarwyddwr wedi bod yn aelod gwadd sefydlog o'r Pwyllgor ac wedi rhoi cyngor a chymorth parhaus i'r adolygiad. Mae hefyd yn diolch i'r rheini sydd wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r adolygiad.

Mae aelodau yn gobeithio bod y profiad wedi bod yn un cadarnhaol i bawb sy'n gysylltiedig, yn enwedig y bobl ifanc, ac y bydd yn annog swyddogion sy'n llunio polisïau ac sy'n gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i weld mantais gweithio'n uniongyrchol ac yn briodol mewn partneriaeth â phobl ifanc wrth ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau.

Mae'r Grwp Cyfeirio wedi cynhyrchu ei adroddiad a'i argymhellion dros dro ei hun, gyda chymorth Barnardo's Cymru, a chaiff y rhain eu cynnwys fel rhan hanfodol o adroddiad y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi holl argymhellion y Grwp yn llawn, ac mae wedi ychwanegu ychydig o'i argymhellion eu hun atynt hefyd.

Cwestiwn yw teitl yr adroddiad hwn. Cwestiwn ydyw a ofynnwyd gan un o'r bobl ifanc yng Ngrwp Cyfeirio'r Pwyllgor mewn sesiwn dystiolaeth. Cafodd ei ddewis ar gyfer y teitl oherwydd ei fod yn cynrychioli'r rhwystredigaeth a deimlir gan lawer o bobl ifanc anabl, a'r rheini sy'n gweithio gyda hwy, am y rhwystrau maent yn eu hwynebu a'r ffaith na chânt eu cynnwys yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y gallant fyw eu bywydau. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i ganolbwyntio ar y materion hyn a nodi rhai atebion ymarferol.

Gwenda Thomas AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

AELODAU'R PWYLLGOR

Gwenda Thomas (Cadeirydd)	**Llafur**	**Castell-nedd**
Lorraine Barrett	**Llafur**	**De Caerdydd a Phenarth**
David Davies (tan fis Mai 2004)	**Ceidwadwyr**	**Sir Fynwy**
Lisa Francis (tan fis Ionawr 2004)	**Ceidwadwyr**	**Canolbarth a Gorllewin Cymru**
John Griffiths	**Llafur**	**Dwyrain Casnewydd**
Mark Isherwood	**Ceidwadwyr**	**Gogledd Cymru**
Helen Mary Jones	**Plaid Cymru**	**Canolbarth a Gorllewin cymru**
Laura Anne Jones	**Ceidwadwyr**	**Dwyrain De Cymru**
Huw Lewis	**Llafur**	**Merthyr Tudful a Rhymni**
Jenny Randerson	**Y Democratiaid Rhyddfrydol**	**Canol Caerdydd**
Catherine Thomas	**Llafur**	**Llanelli**
Leanne Wood	**Plaid Cymru**	**Canol De Cymru**

Cyflwyniad

Hawliau ar Waith 2003 - y Gyngres Ryngwladol gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc Anabl

Cynhaliwyd y Gyngres Ryngwladol gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc Anabl yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2003. Cafodd ei drefnu gan glymblaid o grwpiau yn gweithio i sicrhau hawliau pobl ifanc anabl. Roedd y digwyddiad yn dod â phobl ifanc anabl rhwng 14 a 25 oed o 35 o genhedloedd ledled y byd at ei gilydd i archwilio i faterion a phryderon a oedd yn effeithio ar eu bywydau. Ar ddiwedd wythnos o drafodaethau a chyfarfodydd llawn, cytunodd y Gyngres ar faniffesto[1] o faterion yr oedd am iddynt gael eu hystyried ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Ym mis Hydref 2003, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan bobl ifanc anabl a thrafodwyd rhai o'r materion a gafodd eu cynnwys ym maniffesto'r Gyngres[2]. O ganlyniad i'r sesiwn hon yn bennaf y penderfynodd y Pwyllgor ymgymryd ag adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl.

Cydnabu'r Pwyllgor na fyddai'n gallu mynd i'r afael â'r holl faterion a gwmpaswyd gan faniffesto'r Gyngres. Yn hytrach, cytunwyd i ganolbwyntio ar faterion a oedd yn fwyaf perthnasol i bobl ifanc anabl yng Nghymru, yn enwedig y rheini y câi'r dylanwad mwyaf arnynt. Er mwyn helpu i nodi materion i'w cynnwys yn ei gwaith, cynhaliodd y Pwyllgor ymarfer cwmpasu[3], gyda chymorth a chyngor gan Gomisiwn Hawliau Anabledd Cymru a Phlant yng Nghymru. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymarfer cwmpasu gan y Pwyllgor i lunio'r cylch gorchwyl ar gyfer ei adolygiad.

---

1 http://www.rightsintoaction.org.uk/Manifesto/Manifesto.asp
2 Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 2 Hydref 2003 EOC(2) 03-02(p1)
3 Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 1 Ebrill 2004 EOC(2) 03-04(p8)

Cylch Gorchwyl
Ym mis Mehefin 2004 cytunodd y Pwyllgor ar gylch gorchwyl[4] ar gyfer ei adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl.

Nododd y Pwyllgor dair thema gyffredinol y byddai'n canolbwyntio ei waith arnynt:

- hyrwyddo annibyniaeth pobl ifanc, a'u cynorthwyo i reoli'u bywydau eu hunain;
- darparu gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n ymateb i'w anghenion
- darparu cymorth a gwasanaethau sy'n briodol ar gyfer y grwp oedran o dan sylw

O fewn y themâu hyn, cytunodd y Pwyllgor i roi ystyriaeth arbennig i'r wyth maes canlynol:

- Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Hamdden
- Tai
- Trafnidiaeth
- Cyfarpar
- Camu o fyd plentyn i fod yn oedolyn
- Cael gafael ar wybodaeth
- Tlodi

Er mwyn llywio ei waith cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig. Nod yr ymgynghoriad oedd sefydlu p'un a oedd polisïau cyfredol y Cynulliad ynghylch darparu gwasanaethau yn diwallu anghenion pobl ifanc anabl yn ddigonol. Roedd hefyd yn ceisio nodi arferion da a, lle yr oeddent yn bodoli, y graddau yr oedd yr arferion da yn cael eu rhannu gyda darparwyr gwasanaeth ledled Cymru.

Cafodd y Pwyllgor gyfanswm o 67 o ymatebion gan amrywiaeth eang o ffynonellau[5]. Yn ystod yr adolygiad, cafwyd tystiolaeth lafar gan 28 o dystion[6] mewn cysylltiad â'r materion a godwyd gan y Grwp Cyfeirio.

---

[4] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 17 Mehefin 2004 EOC(2) 05-04(p3)
[5] Gweler Atodiad Ch am restr o'r rhai a ymatebodd
[6] Gweler Atodiad D am restr o dystion

Grwp Cyfeirio pobl ifanc anabl
Gan gydnabod 'cyfranogiad' fel thema allweddol ym maniffesto'r Gyngres, rhoddodd y Pwyllgor ymrwymiad cadarn i gynnwys pobl ifanc anabl ym mhob cam o'i adolygiad. Yn sgîl hyn, sefydlwyd grwp cyfeirio yn cynnwys pobl ifanc anabl o bob cwr o Gymru. Diben y grwp cyfeirio oedd cynnig cyngor i'r Pwyllgor yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol.

Cydnabu'r Pwyllgor yr angen am y Grwp, cyhyd ag sy'n bosibl, gynrychioli pobl ifanc ag amrywiaeth o anableddau, yn cynnwys anableddau corfforol a dysgu, yn ogystal â phobl â nam ar eu synhwyrau. Yn ogystal â hynny, credai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig bod y grwp yn gytbwys o ran rhyw, yn cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg ac yn cynrychioli'r gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Ym mis Ionawr 2005 penodwyd hwylusydd[7] gan y Pwyllgor i helpu i sefydlu'r grwp a threfnu ei waith. Cysylltodd yr hwylusydd i ddechrau â rhestr gynhwysfawr o sefydliadau a grwpiau presennol a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc anabl mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth o waith y Pwyllgor ac ysgogi diddordeb yn y grwp cyfeirio.

Sefydlwyd y grwp ym mis Mawrth 2005 ac roedd ei aelodau yn cynnwys 15 o bobl ifanc anabl a gynrychiolai gymheiriaid o'r sefydliadau canlynol: Mencap Cymru, Viva, 'Young Voices for Choices' yn Sir Benfro, People first Caerdydd, Barnardos Cymru a Dynamic Wrecsam[8]. Er yr ymdrech ar y cyd gan y Pwyllgor a'r hwylusydd grwp ni wnaethant lwyddo i sicrhau cyfraniad gan bobl ifanc o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Drwy gydol yr adolygiad rhoddodd y grwp cyfeirio gyngor i'r Pwyllgor ar y meysydd oedd bwysicaf iddynt hwy yn eu barn hwy, sef, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, trafnidiaeth, camu o fyd plentyn i fyd oedolyn a byw'n annibynnol. Cyfarfu'r grwp cyn bob cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor i archwilio'r materion i'w trafod. Yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol rhannodd aelodau'r grwp eu sylwadau a'u profiadau gyda'r Pwyllgor a rhoesant gymorth i Aelodau wrth holi tystion a fynychodd i roi tystiolaeth i'r adolygiad.

---

[7] Tim Ruscoe, Barnardo's Cymru
[8] Gweler Atodiad D am restr o Aelodau'r Grŵp Cyfeirio

Roedd defnyddio Grwp Cyfeirio i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith yn wreiddiol ac yn arloesol. Yn ystod yr adolygiad cytunodd y Pwyllgor i asesu'r ffordd yr oedd yn gweithio gyda'r grwp gyda'r nod o sicrhau bod y bobl ifanc yn fodlon ar y lefel o gyfranogiad a chysylltiad. Ym mis Tachwedd 2005, ymgymerodd Aelodau[9] ag asesiad cychwynnol a chyhoeddwyd adroddiad[10], a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor.

Rydym yn ddyledus i'r grwp cyfeirio am eu gonestrwydd, eu natur agored, eu hyder a'u proffesiynoldeb drwy gydol yr adolygiad. Ni ellid bod wedi'i gynnal.

Diffiniadau

Drwy'r adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r termau 'anabl', 'mynediad' a 'hygyrchedd'.

- Anabl – Person sydd â nam corfforol neu feddyliol neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n effeithio ar ei fywyd pob dydd yw person anabl.
- Mynediad a hygyrchedd – nid yw'r rhain yn cynnwys mynediad corfforol ar gyfer cadeiriau olwyn yn unig. Maent hefyd yn cynnwys mynediad at wybodaeth, cyflogaeth a gwasanaethau mewn ffyrdd priodol i bobl ifanc anabl.

Argymhellion Cyffredinol

Wrth i ni wrando ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni yn ystod yr adolygiad, cydnabuom fod angen argymhellion cyffredinol i ategu'r argymhellion eraill yn yr adroddiad.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu polisi strategol sy'n cynnwys yr holl wasanaethau sydd eu hangen ar bobl ifanc i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd llawn. Dylid cynnwys pobl ifanc yn y broses o ddod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau hyn.

Argymhelliad 2: Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau i holl is-adrannau polisi, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ar gynnwys pobl ifanc anabl,

[9] Lorraine Barret AC a Helen Mary Jones AC
[10] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 18 Ionawr 2006 EOC (2) 01-06(p.5)

eu teuluoedd a'u gofalwyr yn y broses o lunio polisïau. Dylai'r canllawiau nodi arfer da (e.e. gwaith y Grwp Cyfeirio Pobl Ifanc Anabl) a phwysleisio'r angen i wrando ar farn pobl ifanc anabl yn eu geiriau hwy eu hunain yn hytrach na chanolbwyntio ar farn eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i holl gyrff y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau, un-i-un, grwpiau, prosiectau a mentrau i bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl i'r holl bobl ifanc.

Dylai'r canllawiau gynnwys:

Sicrhau bod gwybodaeth am brosiectau ar gael yn hawdd;

Creu amgylchedd y mae pobl ifanc yn teimlo'n gysurus ag ef;

Sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc eu deall yn llawn;

Gwneud cynnydd tuag at brosiectau mor ddifyr ac mor heriol â phosibl i bob person ifanc, gan asesu a lleihau unrhyw risgiau cysylltiedig.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu adolygiad o hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl a chyflogwyr.

Dylai canlyniadau'r adolygiad helpu gyda'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, sy'n cynnwys darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth ar berthnasau, rhywioldeb ac iechyd rhyw, yn ogystal â chyngor addysgol a chyngor ar yrfaoedd.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl mewn awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu gan bobl â hyfforddiant a phrofiad priodol a digonol o'r materion sy'n wynebu pobl anabl.

PENNOD 1

FFRAMWAITH DEDDFWRIAETH A PHOLISI AR GYFER GWASANAETHAU I BOBL IFANC ANABL

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

1.1 Mabwysiadwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Tachwedd 1989, cafodd ei lofnodi ym mis Ionawr 1990 a'i gadarnhau gan Lywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 1991. Mae'r Confensiwn yn pennu cyfres o safonau gofynnol mewn cysylltiad â hawliau'r plentyn a ddylai ategu'r broses o ddatblygu deddf, polisi ac arfer. Mae'n cynnwys 54 o erthyglau sydd wedi'u rhannu'n dri phrif gategori, sef darpariaeth, diogelwch a chyfranogiad. Dyma'r erthyglau craidd:

- Mae **erthygl 2** yn nodi y dylai pob hawl fod yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu ar unrhyw sail ac mae'n nodi anabledd yn benodol.

- Mae **erthygl 3** yn nodi mai un o'r prif ystyriaethau wrth gyflawni pob gweithred fydd lles y plentyn.

- Mae **erthygl 6** yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl gynhenid i fywyd, a dylai pob gwlad sicrhau bod y plentyn yn datblygu cymaint â phosibl ac yn byw mor hir â phosibl.

- Mae **erthygl 12** yn nodi hawl y plentyn i fynegi barn ac i'r farn honno gael ei ystyried mewn unrhyw fater neu weithdrefn sy'n effeithio ar y plentyn.

- Mae **erthygl 23** yn nodi hawl plant anabl i fwynhau bywyd llawn a boddhaol, o dan amgylchiadau sy'n sicrhau urddas, sy'n hyrwyddo hunanddibyniaeth ac sy'n hwyluso cyfranogiad gweithredol y plentyn yn y gymuned. Mae hefyd yn nodi hawl y plentyn anabl i gael gofal arbennig, addysg, gofal iechyd, hyfforddiant, cymorth adsefydlu, cymorth i baratoi ar gyfer cyflogaeth a chyfleoedd hamdden, ac i'r rhain gael eu llunio mewn ffordd a fydd yn arwain at y plentyn yn cael ei integreiddio mor llawn â phosibl yn y

gymdeithas ac iddo ddatblygu cymaint â phosibl, sy'n cynnwys ei ddatblygiad diwylliannol ac ysbrydol.

- Mae **erthygl 28** yn nodi hawl y plentyn i addysg, a noda bod hyn yn seiliedig ar gyfle cyfartal.

- Mae **erthygl 29** yn nodi y dylai addysg plentyn ganolbwyntio ar ddatblygu ei bersonoliaeth a'i ddoniau, a'i allu meddyliol a chorfforol er mwyn iddo gyflawni ei botensial i'r eithaf. Mae hefyd yn nodi y bydd addysg yn paratoi'r plentyn ar gyfer bywyd gweithgar a chyfrifol fel oedolyn, gan feithrin parch am hawliau dynol sylfaenol ac am werthoedd diwylliannol a chenedlaethol y plentyn ei hun a rhai pobl eraill.

Deddfwriaeth

Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

1.2 Daeth Deddf Hawliau Dynol 1998 i rym ym mis Hydref 2000. Mae'r Ddeddf yn rhoi effaith gyfreithiol yn y DU i rai hawliau a rhyddid sylfaenol sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae 16 o hawliau sylfaenol yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid materion yn ymwneud â bywyd a marwolaeth yn unig ydynt, fel rhyddid rhag cael eich arteithio a'ch lladd, ond materion sydd hefyd yn effeithio ar eich hawliau mewn bywyd bob dydd, fel eich hawl i addysg a'r hawl i ryddid rhag gwahaniaethu.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995

1.3 Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 oedd y ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethu gyntaf a oedd yn ymwneud â phobl anabl yn benodol. Ei nod yw rhoi terfyn ar achosion o wahaniaethu yn erbyn llawer o bobl anabl drwy roi hawliau iddynt ym maes:

- cyflogaeth
- addysg
- mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau
- prynu neu rentu tir neu eiddo

1.4 Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatau i'r llywodraeth bennu safonau gofynnol fel bod pobl anabl yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hawdd.

1.5 O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth:

- mae'n anghyfreithlon trin pobl anabl yn llai ffafriol na phobl eraill am reswm sy'n gysylltiedig â'u hanabledd;

- mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wneud 'addasiadau rhesymol' i bobl anabl, er enghraifft, rhoi rhagor o help iddynt neu newid y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau;

- mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wneud 'addasiadau rhesymol' i'r nodweddion ffisegol sy'n gweithredu fel rhwystr i bobl anabl sydd am ddefnyddio eu gwasanaethau.

Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001

1.6 Ym mis Medi 2002 daeth dyletswyddau newydd i ddarparwyr addysg i rym o dan Ran 4 o'r Ddeddf a ddiwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005

1.7 Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 yn diwygio neu'n ychwanegu at ddarpariaethau presennol Deddf 1995, yn cynnwys:

- ei gwneud yn anghyfreithlon i weithredwyr cerbydau trafnidiaeth wahaniaethu yn erbyn pobl anabl;

- ei gwneud yn haws i bobl anabl rentu eiddo ac i denantiaid wneud addasiadau sy'n gysylltiedig ag anabledd;

- sicrhau nad yw clybiau preifat gyda 25 neu fwy o aelodau yn gallu gwahardd pobl anabl, dim ond oherwydd bod ganddynt nam;

- ymestyn gwarchodaeth i bobl sy'n dioddef o HIV, canser a sglerosis ymledol o'r funud y cânt ddiagnosis;

- sicrhau bod cyfraith gwahaniaethu'n cwmpasu holl weithgareddau'r sector cyhoeddus;

- ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl.

1.8 Daeth rhai o'r cyfreithiau newydd, yn cynnwys y cyfreithiau sy'n rhoi mwy o amddiffyniad i bobl gyda HIV, canser a sglerosis ymledol, i rym ym mis Rhagfyr 2005. Bydd rhai eraill , yn cynnwys y ddyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl, yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2006.

Deddf Cydraddoldeb 2006

1.9 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a fydd yn hyrwyddo cydraddoldeb ar draws saith maes cydraddoldeb yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys anabledd ac oedran.

1.10 Er bod y Comisiwn yn gorff Prydain gyfan, bydd ganddo gylch gwaith penodol i gwmpasu Cymru, swyddfeydd yng Nghymru, Comisiynydd Cymru, staff pwyllgorau a staff dynodedig yng Nghymru.

1.11 Caiff protocol gweithredol ei sefydlu rhwng y Comisiwn a Swyddfa'r Comisiynydd Plant yng Nghymru. Mae adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant eisoes wedi rhoi lle blaenllaw i faterion yn ymwneud ag anabledd, yn cynnwys materion yn ymwneud â datganiadau anghenion addysgol arbennig, bwlio sy'n gysylltiedig ag anabledd a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl.

1.12 Bydd hefyd gan y Comisiwn bwyllgor anabledd i sicrhau y caiff materion anabledd eu trosglwyddo'n ddidrafferth i'r Comisiwn newydd. Bydd angen sicrhau perthynas waith agos rhwng y Pwyllgor yng Nghymru a'r Pwyllgor Anableddau.

Y Mesur Diwygio Lles

1.13 Ym mis Gorffennaf 2006, cyflwynwyd y Mesur Diwygio Lles i'r Senedd. Mae'r Mesur yn deddfu ar gyfer cynlluniau'r Llywodraeth sy'n anelu i foderneiddio'r wladwriaeth les a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod o hyd i gyflogaeth ac aros mewn gwaith.

1.14 Mae'r Mesur yn cynnwys pwerau i ddisodli budd-daliadau analluogrwydd gyda Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd, a'i nod, ynghyd â'r Asesiad Gallu Personol newydd, yw rhoi mwy o gymorth a help perthnasol i unigolion i'w helpu i ddod o hyd i waith addas. Mae'n cyflwyno newidiadau yn y drefn Budd-dal Tai sy'n cynnwys cyflwyno Lwfans Tai Lleol i denantiaid mewn llety rhent preifat.

Polisïau a Rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru

Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth

1.15 Ym mis Tachwedd 2000 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth* sy'n pennu ei gweledigaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn y dyfodol. Mae'n disgrifio sut y gall y rheini sy'n darparu gwasanaethau gydweithio mewn partneriaeth. Awgryma ymagwedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn effeithiol ar lefel leol lle y gallant gyfrannu at y gwaith o gynllunio ac adolygu gwasanaethau ar draws awdurdodau lleol, grwpiau iechyd ac mewn ysgolion.

Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau

1.16 Mae'r ddogfen bolisi hon yn pennu nodau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef:

- Dechrau da mewn bywyd
- Amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu
- Yr iechyd gorau posibl heb unrhyw gamdriniaeth, erledigaeth a cham-fanteisio
- Cyfle i ymgymryd â gweithgareddau chwarae, hamdden a chwaraeon a diwylliannol
- Trin plant a phobl ifanc gyda pharch a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
- Cartref a chymuned ddiogel sy'n cynnal lles corfforol ac emosiynol
- Nid yw plant a phobl ifanc o dan anfantais gan dlodi

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru

1.17 Ym mis Medi 2005 lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (NSF). Mae'r NSF yn nodi ansawdd y gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd hawl i'w disgwyl a'u cael. Ei nod yw gwella ansawdd a lleihau amrywiaethau o ran darparu gwasanaethau drwy bennu safonau cenedlaethol. Ategir y safonau hyn gan gamau gweithredu allweddol penodol a mesuradwy i'w cynnal gan sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.

1.18 Yn ogystal â chamau gweithredu allweddol cyffredinol, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc, waeth beth fo'u hamgylchiadau, mae'r NSF yn cynnwys pennod yn arbennig i blant a phobl ifanc anabl sy'n pennu'r safonau canlynol:

- *Caiff plant anabl a'u teuluoedd o bob cymuned, gymorth llawn i gael profiadau plentyndod gwerthfawr a chael yr un amrywiaeth o gyfleoedd, profiadau bywyd a gwasanaethau a chyfleusterau prif ffrwd a chymunedol â phlant eraill a'u teuluoedd.*

- *Caiff pob plentyn anabl a'u teuluoedd wybodaeth hygyrch am wasanaethau cydgysylltiedig o ansawdd uchel sy'n briodol i'w hanghenion a asesir a gallant gael gafael ar y gwasanaethau hynny yn deg ac yn brydlon.*

- *Darperir gwasanaethau priodol, amserol o ansawdd uchel i blant anabl mewn amgylchedd sy'n cyd-fynd â'u hanghenion, eu hoedran a'u cam datblygu. Darperir gwasanaethau aml-asiantaethol wedi'u cydgysylltu'n dda i ddiwallu pob math o anghenion.*

- *Cynigir amrywiaeth o wasanaethau aml-asiantaethol cydgysylltiedig i bobl ifanc y mae angen gwasanaethau parhaus arnynt, fel y rhai sy'n anabl neu sydd â salwch cronig, pobl ifanc â salwch neu anhwylderau meddwl parhaol, pobl ifanc ddiamddiffyn a'u teuluoedd, gofalwyr a rhai sy'n ymadael â gofal, yn unol ag anghenion wedi'u hasesu er mwyn trosglwyddo'n effeithiol o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.*

Llwybrau Dysgu

1.19 Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn nodi'r ymrwymiad i drawsnewid y ddarpariaeth ddysgu ar gyfer holl bobl ifanc Cymru. Mae Llwybrau Dysgu yn mynd i'r afael â'r angen am ddull mwy hyblyg a chytbwys o ddysgu pobl ifanc 14-19 oed, drwy ddarparu ystod ehangach o brofiadau sy'n ateb gwahanol ofynion pobl ifanc Cymru.

1.20 Mae Llwybrau Dysgu yn cynnwys chwe elfen allweddol, a chyda'i gilydd, byddant yn sicrhau, dros amser, bod pob dysgwr yn cael cydbwysedd priodol o brofiadau dysgu sy'n diwallu'u hanghenion yn y ffordd orau. Mae'r elfennau allweddol hefyd yn galluogi dysgwyr i gael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i wireddu eu potensial. Y chwe elfen allweddol yw:

- Llwybrau Dysgu unigol i ddiwallu anghenion pob dysgwr;
- dewis ehangach a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu;
- Craidd Dysgu lle bynnag y mae dysgwyr 14-19 oed;
- Cymorth Hyfforddwr dysgu;
- mynediad at gymorth personol;
- cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd.

1.21 Nod Llwybrau Dysgu 14-19 yw annog rhagor o bobl ifanc i gyflawni eu potensial er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa gynyddol well i'r byd gwaith ac i fod yn fwy gwybodus ac yn ddinasyddion mwy gweithgar. Ei nod yw gwneud hyn drwy gyfrannu at welliant mewn cymwysterau, cynorthwyo â'r gwaith o gynyddu'r gyfran o bobl ifanc 16 oed sy'n mynd ymlaen i hyfforddiant neu ddysgu pellach, ehangu dewisiadau, hyrwyddo cyfle cyfartal a chynorthwyo â'r broses o gyflawni 'Ymestyn Hawliau'.

Y Model Cymdeithasol o Anabledd

1.22 Ym mis Ionawr 2002 mabwysiadodd y Cynlluniad y model cymdeithasol o anabledd ar ôl cynnig[11] yn y cyfarfod llawn. Mae'r model yn seiliedig ar y ffaith fod anfantais ac allgáu cymdeithasol yn deillio o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn hytrach

[11] Manylion y cynnig - 10 Ionawr 2002

na nam yr unigolyn. Fel yr esboniodd y Comisiwn Hawliau Anabledd:

> '...nid yw pobl anabl yn wynebu anfantais oherwydd eu nam ond maent yn profi gwahaniaethu yn y ffordd rydym yn trefnu cymdeithas. Mae hyn yn cynnwys methu â gwneud addysg, gwaith, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch...'

1.23 Mae'r model cymdeithasol yn canolbwyntio ar ddymchwel y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau bob dydd a byw bywyd yn llawn.

PENNOD 2

ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYFLOGAETH

2.1 Wrth edrych ar thema addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, soniodd y Pwyllgor yn anochel am y materion sy'n ymwneud â'r broses drosglwyddo i blant a phobl ifanc anabl a sut y cânt afael ar wybodaeth a chyngor. Nodwyd y ddau beth hyn fel themâu ar wahân yng nghylch gorchwyl yr adolygiad. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn awyddus i osgoi dyblygu gwaith y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sydd hefyd wedi nodi trosglwyddo fel thema allweddol yn y dyfodol ar gyfer ei adolygiad o Anghenion Addysgol Arbennig. Felly mae'n gobeithio y bydd materion y mae wedi'u nodi ac argymhellion cysylltiedig yn ategu gwaith y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Addysg fel profiad

2.2 Nid yw addysg i bobl ifanc anabl yn ymwneud â chael cymwysterau yn unig, mae'n ymwneud â chwrdd â phobl newydd a meithrin perthnasau. Er bod adolygiad y Pwyllgor wedi sôn am y gwahaniaethau rhwng addysg prif ffrwd ac addysg arbennig, mae wedi canolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo annibyniaeth a helpu pobl ifanc i reoli'u bywydau eu hunain. Mae'r grwp cyfeirio wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at bwysigrwydd galluogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau bywyd sydd eu hangen i gael annibyniaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar brofion a chymwysterau. Er enghraifft roedd merch 16 oed a oedd yn mynychu ysgol arbennig yn poeni nad oedd wedi gallu cymryd rhan mewn gwers goginio gan nad oed ystafelloedd economeg y cartref yn yr ysgol[12].

Materion Allweddol

2.3 Nododd y grwp cyfeirio y blaenoriaethau canlynol ar gyfer 'addysg, hyfforddiant a chyflogaeth'[13]:

- Dim cymorth ôl-18 oed mewn hyfforddiant swydd

- Cael hyfforddiant yn seiliedig ar swydd er mwyn ennill cyflog a fydd yn caniatáu dewisiadau bywyd

[12] Glenys Griffiths (Barnado's Cymru) Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 17 Mawrth 2005, paragraff 9

[13] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 17 Mawrth 2005, paragraff 9

- Unigolion â'r prif lais wrth gynllunio bywyd

- Cwrdd â phobl newydd / cyfeillgarwch

- Bwyd / prydau ysgol

- Addysg anffurfiol / gwaith prosiect / clybiau ieuenctid

- Byw o ddydd i ddydd / sgiliau bywyd

- Perthnasau - rhywiol - teulu / ffrindiau

- Dewisiadau cyfyngedig - pobl ifanc yn teimlo bod yn rhaid iddynt berthyn

- Hyfforddi athrawon - ymwybyddiaeth o anghenion unigol

- Profion a chymwysterau

- Dim yr un dewisiadau â phrif ffrwd

- Cyfle cyfatal / Cyfleoedd teg

- Cymorth i gael gwaith â thâl

- Cwricwlwm - dewisiadau

- Trafnidiaeth

- Mynediad dilys / cyfartal i goleg

2.4 Roedd y blaenoriaethau hyn yn gyffredinol yn cyfateb i'r materion a godwyd gan y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad cychwynnol y Pwyllgor. Nododd yr ymgynghoriad er bod addysgu pobl ifanc anabl mewn ysgolion prif ffrwd o fantais iddynt hwy a'u cyfoedion, nid yw cynhwysiant llawn bob amser yn bosibl. Mae angen i bobl ifanc anabl gael eu haddysgu mewn amgylchedd diogel â chymorth ac mae cyfleoedd cynhwysiant llawn cyfyngedig. Mae angen ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys ym mhob proses sy'n effeithio arnynt. Nid oes mynediad ac offer arbenigol ar gael bob amser; nid oes digon o wasanaethau therapi ac mae anghysondebau rhanbarthol o ran y ddarpariaeth, yn cynnwys darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill ar

wahân i Saesneg. Nid oes digon o gyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol.

2.5 Amlygwyd yr angen am ragor o gydweithio a llai o fiwrocratiaeth, yn ogystal â'r oedi yn y gwaith o asesu cyn dechrau addysg bellach neu addysg uwch, ac wrth brosesu Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA).

2.6 Roedd y ffaith bod hyfforddiant yn seiliedig ar waith a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc anabl yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a diffyg gwybodaeth am gyfleoedd mewn addysg bellach ac uwch yn bryder mawr, yn enwedig y disgwyliadau isel a roddir yn aml ar bobl ifanc anabl o ran yr hyn y gallant ei gyflawni.

Bwlio

2.7 Cydnabu Plant yng Nghymru a'r Comisiwn Hawliau Anabledd hyn fel mater mawr i bobl ifanc anabl mewn ysgolion ac fe gododd y grwp cyfeirio hyn hefyd. Archwiliodd y Pwyllgor effaith polisïau gwrth-fwlio Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2006[14].

Polisi fframwaith cydlynol ar gyfer cymorth cyn-16 ac ôl-16

2.8 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan brif ddarparwr cyngor a chymorth gyrfaoedd i bobl ifanc anabl yng Nghymru, Gyrfa Cymru[15]. Nododd fod y broses o ddarparu addysg, hyfforddiant a gwasanaethau cyflogaeth i helpu pobl ifanc i drosglwyddo o'r ysgol i'r coleg i'r byd gwaith yn gydweithrediad aml-asiantaethol, a bod enghreifftiau da o brotocolau ar gyfer darpariaeth cyn-16 ar waith, ond bod diffyg fframwaith cydlynol ar gyfer y gwaith aml-asiantaethol hwnnw. Nodwyd hyn fel gwendid posibl o ran sicrhau ymagwedd gyfannol, gysylltiedig tuag at gynorthwyo pobl ifanc cyn-16 a gwasanaethau ôl-16 a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ELWa cyn hynny). Yn achos pobl ifanc anabl, gall llawer o ddarparwyr gwasanaeth, yn statudol ac yn wirfoddol, gyfrannu at eu gofal a'u cymorth ar yr adeg allweddol hon yn eu bywydau.

---

[14] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Mawrth 2005, paragraffau 14-108,
[15] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 17 Mawrth 2005

2.9 Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r farn a fynegwyd gan Estyn sef bod angen athroniaeth glir sy'n croesi ffiniau traddodiadol ac sy'n darparu gwasanaethau cydgysylltiedig er mwyn sicrhau gwaith aml-asiantaeth effeithiol. Nododd Estyn nad oedd cynlluniau trosglwyddo yn aml yn ddigon da. Roedd oedi wrth benderfynu ar ariannu, roedd trosglwyddo gwybodaeth i ddarparwyr newydd yn araf, roedd oedi yn y broses asesu ac ni roddwyd gwasanaethau ar waith yn ddigon cyflym. Roedd yr oedi yn golygu cost ddynol i'r person ifanc na chafodd afael ar y cwricwlwm yn ddigon cyflym ac a ddigalonnodd. Nid oedd digon o gynllunio ar y cyd ychwaith.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu polisi fframwaith cyfannol, cydgysylltiedig ar gyfer darparu cymorth a gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cyn-16 ac ôl-16 (hyd at o leiaf 25 oed).

Dylai'r polisi fframwaith gwmpasu adnabyddiaeth gynnar, asesu a darpariaeth gwasanaethau i nodi'n glir y rolau a'r protocolau aml-asiantaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu gwasanaethau.

Meini prawf ariannu ar gyfer cymorth ôl-16

2.10 Nododd Gyrfa Cymru[16] ac Ymddiriedolaeth Shaw[17] ffaith y gallai'r gyfundrefn ariannu ar gyfer gwasanaethau hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 rwystro pobl ifanc anabl rhag cael cyfleoedd. Holwyd cwestiynau ynghylch y graddau y mae darpariaeth bresennol yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Yn arbennig, gall meini prawf asesu ac ariannu sy'n gwobrwyo cymwysterau a chyraeddiadau addysgol, yn hytrach na sgiliau bywyd a'r gallu i weithio a byw'n annibynnol, weithredu fel arf ataliol i ddarparwyr gwasanaethau a phobl ifanc anabl sydd ag anableddau dysgu. Mae Adeiladu Sgiliau yn enghraifft o wasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (ELWa cyn hynny) ar sail cymwysterau yn hytrach na chanlyniadau swydd.

2.11 Nododd Ymddiriedolaeth Shaw:

> ‘Pennir lefelau ariannu fel na all unrhyw ddarparwr fforddio cynnig y cymorth sydd ei angen ar fyfyrwyr ag anabledd dysgu er mwyn

[16] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 17 Mawrth 2005
[17] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Medi 2005 EOC(2)-07-05(p7)

iddynt gyrraedd y lefel angenrheidiol. Mae'r ymagwedd hon yn methu'n llwyr â gwneud yr addasiadau angenrheidiol i bobl ag anableddau dysgu i sicrhau canlyniad cyfartal, h.y. sgiliau a enillwyd i alluogi'r person i gael ei gyflogi.'

2.12 Cwestiynwyd hefyd pam y dylai arian ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth â chymorth i bobl ag anghenion cymorth uchel ddod yn bennaf o gyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol, yn hytrach na chael eu hariannu'n brif ffrwd gan y Ganolfan Byd Gwaith. Cyfeiriwyd at lwerddon fel enghraifft, lle ariennir cyflogaeth â chymorth gan yr hyn sy'n cyfateb i'r Ganolfan Byd Gwaith.

Argymhelliad 7: Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r systemau asesu ac ariannu ar gyfer gwasanaethau cymorth i helpu pobl ifanc anabl i symud o addysg a hyfforddiant i gyflogaeth. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddarpariaeth dysgu yn seiliedig ar waith, a sicrhau ei fod yn pwysleisio canlyniadau cyfartal o ran swyddi a chynnydd, yn hytrach nag ar gymwysterau a enillwyd.

Cael gafael ar wybodaeth

2.13 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth fod diffyg gwybodaeth berthnasol i bobl ifanc yn ystod y broses drosglwyddo, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ieithoedd lleiafrifoedd ethnig, ac mewn fformatau hygyrch eraill[18]. Mae'r rhyngrwyd yn ffordd bwysig i lawer o bobl ifanc anabl gyfathrebu a chael gafael ar wybodaeth, ond roedd aelodau grwp cyfeirio'r Pwyllgor a oedd wedi ceisio defnyddio gwasanaeth Gyrfa Cymru Ar-lein wedi canfod nad oed yn fawr o help. Nid oedd opsiwn i nodi os oedd gennych nam corfforol neu nam dysgu a chynigiwyd opsiynau gyrfa fel stiward awyren neu warchodwr plant i un defnyddiwr cadair olwyn â pharlys yr ymennydd.

'Sut mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn meddwl y gall pobl na allant ddarllen wybod am eu gwasanaethau os mai dim ond taflenni y maent yn eu darparu? Ydy'ch taflenni yn hygyrch neu a ydych yn darparu tapiau sain? A oes gan eich gwefan gyfleuster llais?'
Gareth Morgans, aelod o'r Grwp Cyfeirio

[18] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 17 Mawrth 2005

2.14 Mae Stephen Barry Lloyd yn archwiliwr mynediad y we yn Ymddiriedolaeth Shaw, sy'n defnyddio cadair olwyn electronig a thechnoleg 'switch' cynorthwyol. Mae Steve wedi creu ei wefannau ei hun yn esbonio ei brofiadau o anghenion arbennig ac addysg a hyfforddiant prif ffrwd. Pan ofynnwyd iddo beth y gellid ei wneud i wella pethau i bobl ifanc anabl, dywedodd Steve:

> ‘Cael swydd i ddechrau. Hoffwn gael swydd yn y cyfryngau ond mae'n anodd cael busnesau i roi profiad gwaith i mi a chael cynorthwy-ydd personol.’ (i'w alluogi i wneud y profiad gwaith).

Argymhelliad 8: Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y darperir yr holl gyngor a chymorth ar addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd, ar lafar neu’n ysgrifenedig, drwy gyfrwng y Gymraeg, ieithoedd lleiafrifoedd ethnig a fformatau hygyrch. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod pob gwasanaeth gwybodaeth a ariennir gan y Cynulliad ar gael ar-lein.

Cynllunio sy'n canolbwyntio ar y person a darpariaeth gwasanaethau

2.15 Pryder cyffredin ymhlith sawl sefydliad a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor oedd yr angen i'r rheini sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ifanc anabl ei wneud, nid yr hyn na allant ei wneud, a darparu’r hyn mae pobl ifanc ei eisiau, nid yr hyn y mae darparwyr gwasanaeth yn credu eu bod ei eisiau.

> ‘Roedd yn anodd i rai o'r grwp gael y dewis i ddilyn y cyrsiau roeddent am ei wneud yn y coleg, pan na allent eu gwneud yn yr ysgol.’
> Heather Graham, aelod o'r Grwp Cyfeirio:

2.16 Nododd tîm Plant ag Anableddau Conwy sut yr oedd eu gweithdrefnau asesu ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo i fod yn oedolion wedi symud o 'offeryn asesu gadael gofal' i 'gynllunio ffordd o fyw hanfodol', sy'n canolbwyntio ar y person, gyda'r person ifanc a'u gofalwyr yn ganolog i'r broses gynllunio[19]. Roedd yn ymgynghori â phobl ifanc ynghylch broses drosglwyddo. Roedd gan y darparwyr gwasanaeth a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor un person fel pwynt cyswllt ar gyfer cynllun trosglwyddo'r person ifanc, neu roeddent yn gweithio tuag at hynny. Fodd bynnag,

[19] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 26 Mai 2005

dywedodd Gyrfa Cymru fod tystiolaeth bod cymorth un i un o'r fath yn gostwng.

2.17 Mae'r Pwyllgor yn credu bod cymorth un i un yn hanfodol i bobl ifanc anabl ac y dylai gael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol. Mae hefyd yn cefnogi protocolau trosglwyddo sy'n canolbwyntio ar roi rheolaeth i'r person ifanc dros y broses, yn cynnwys cyfranogiad llawn mewn cyfarfodydd adolygu rheolaidd a rheolaeth dros pa oedolion y dylid eu cynnwys a pha rai na ddylid eu cynnwys. Dylai'r broses cynllunio trosglwyddo hefyd gynnwys dulliau i ymateb i anghenion na chawsant eu diwallu a mynd i'r afael â hwy pan gânt eu nodi gan bobl ifanc.

> ‘Nid ydym yn hapus os nad ydym yn gweld digon o'n gweithwyr cymdeithasol, pan nad oes cynnydd, a phan fyddant yn penderfynu rhoi gormod o help i chi heb siarad â chi a gadael i chi roi cynnig arno eich hun. Nid ydym yn ei hoffi pan fyddwch yn gofyn i ni am help a byddwch yn troi o gwmpas mewn cylchoedd heb gael canlyniad, ac yn gorffen gyda'r person cyntaf y gwnaethoch siarad â hwy. Fodd bynnag, mae'n dda gennym gael canlyniadau, a phan fyddant yn gwrando arnom fel y gallwn wneud ein penderfyniadau gyda'n gilydd.’
> Robert Surrey, aelod o'r Grwp Cyfeirio:

2.18 Nododd y Comisiwn Hawliau Anabledd y peryglon o greu is-ddosbarth o bobl ifanc anabl na chânt eu hystyried naill ai gan y broses datgan anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion, neu'r gofrestr gwasanaethau cymdeithasol. Gallai fod yn seiliedig ar 'reoli lefel desibel', h.y. y gofalwyr sy'n mynnu gwasanaethau yr uchaf sy'n cael y mwyaf[20]. Nododd awdurdodau lleol Sir y Fflint a Chonwy fod ganddynt ddulliau ar waith i nodi plant na fyddent fel arall yn cael eu cynnwys, er enghraifft, y rheini â phroblemau iechyd meddwl lefel isel, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd neu syndrom Aspergers uchel, i sicrhau eu bod yn cael cymorth drwy'r broses drosglwyddo.[21]

[20] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 26 Mai 2005
[21] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 26 Mai 2005

Argymhelliad 9: Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru systemau ar waith i sicrhau bod pob person ifanc, heb ystyried unrhyw nam, yn cael cymorth priodol drwy'r broses bontio.

2.19 Nododd y grwp cyfeirio darpariaeth cymorth ôl-18 mewn hyfforddiant sy'n gysylltiedig â swydd fel blaenoriaeth, i'w galluogi i ennill cyflog a chael annibynniaeth a dewisiadau bywyd. Nododd hefyd y bydd angen cymorth ar lawer o bobl am sawl blwyddyn ne efallai ar ryw bwynt yn barhaol a holwyd pa ddarpariaeth ariannol oedd ar gael, beth oedd y cyfyngiadau a sut y gallai pobl ifanc ddefnyddio'r cyfleoedd yn y ffordd orau.

‘Ni chefais y cymorth yr oeddwn ei angen. Roedd yn anodd i mi gael cymorth yn y coleg ac yn yr ysgol; nid oedd cymorth ar gyfer y cwrs roeddwn am ei ddilyn. Roeddwn am ddilyn cwrs gwaith coed. Cefais wybod nad oeddwn yn gallu ei ddilyn gan fod gennyf anableddau dysgu ac y byddai'n anodd i mi gael swydd ar ôl hynny.’
Stephen Dyer, aelod o'r Grwp Cyfeirio:

Argymhelliad 10: Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod cymorth un i un ar gael i bobl ifanc anabl fel rhan o wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Argymhelliad 11: Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu effaith darpariaeth gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, drwy fesur pa mor hygyrch yw gwasanaethau i bobl ifanc anabl, a yw’r gwasanaethau yn diwallu anghenion unigol a faint o bobl ifanc anabl 16-25 oed sydd mewn cyflogaeth neu’r math o gyflogaeth o’u dewis.

Argymhelliad 12: Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ar ganlyniadau’r asesiad ar wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gynyddu eu heffeithiolrwydd.

Addysg anffurfiol

2.20 Dylid cydnabod gwerth addysg anffurfiol i bobl ifanc anabl, yn cynnwys deunyddiau a gwaith prosiect a ddarperir gyda chymorth clybiau ieuenctid y tu allan i'r ysgol. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru yn cynnig gweithgareddau clybiau ieuenctid i bobl ifanc fyddar sy'n cynnwys cyngor a gwybodaeth am faterion fel iechyd

rhyw, cyffuriau ac alcohol, profedigaeth, gyrfaoedd a thai. Dylid rhoi cymorth i wasanaethau addysg anffurfiol sy'n briodol i anghenion pobl ifanc anabl, ac ar yr un pryd dylid gwneud ymdrech i fynd i'r afael ag allgáu pobl ifanc anabl o weithgareddau ieuenctid 'prif ffrwd' yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.

2.21 Nododd pobl ifanc anabl eu bod am gael addysg well ar berthnasau yn cynnwys iechyd rhyw. Cyfeirient yn aml at ddewis cyfyngedig a gorfod cyd-fynd â gwasanaethau presennol nad oeddent wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion. Dylai hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd ar gyfer gweithwyr gwasanaeth proffesiynol ystyried hyn. Wrth roi tystiolaeth, nododd Y Gymdeithas Cynllunio Teulu eu bod yn darparu'r un wybodaeth i bobl anabl â phobl nad ydynt yn anabl. Fodd bynnag, maent fwy na thebyg yn gwneud hynny mewn gwahanol ffyrdd. Maent yn dechrau lle mae gan bawb, waeth beth fo'u hanabledd, yr hawl i gael yr un wybodaeth a gwasanaethau, ond efallai bod angen cyflwyno'r wybodaeth a'r gwasanaethau hynny yn wahanol i bobl ag anabledd neu heb anabledd.[22]

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr gwasanaeth adolygu gwasanaethau cymorth, cyngor a gwybodaeth i bobl ifanc ar berthnasau, rhywioldeb ac iechyd rhyw yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, drwy ymgynghori'n llawn â phobl ifanc anabl eu hunain.

Dylid darparu'r canllaw arfer da canlyniadol mewn ffyrdd y gall pob plentyn a pherson anabl â nam eu deall.

Hyfforddiant cydraddoldeb anabledd

2.22 Nododd Sgiliau Cymru a'r grwp cyfeirio yr angen i ddarparu gwell hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl i ysgolion, cynghorwyr gyrfaoedd a chyflogwyr[23]. Heb hyfforddiant digonol ceir perygl y rhoddir opsiynau cyfyngedig i bobl ifanc. Nododd y grwp cyfeirio broblem benodol gyda chynorthwywyr cymorth dysgu sydd wedi gweithio gyda hwy am amser hir ond nad ydynt wedi'u hyfforddi'n ddigonol i'w helpu wrth benderfynu ar opsiynau addysg. Roedd pryder hefyd y gallai cynorthwywyr cymorth dysgu, mewn rhai achosion, gael eu heithrio rhag cymryd rhan mewn diwrnodau HMS ysgolion. Nododd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru

[22] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Mawrth 2006, paragraff 121 ymlaen
[23] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 17 Mawrth 2005

fod rhai cynorthwywyr cymorth dysgu ar gontractau byrdymor ac efallai na chânt eu talu am fynychu hyfforddiant.[24] Mae Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ac UNSAIN wedi llunio cytundeb yn nodi bod yn rhaid i bobl sy'n gweithio mewn ysgolion gael eu talu ar y gyfradd briodol yn flynyddol a dylent gael gwyliau a hyfforddiant. Nododd y Pwyllgor hefyd yr adolygiad arfaethedig o hyfforddiant athrawon yng Nghymru a barn Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru nad oedd yr amser a gymerwyd i gymhwyso ar gyfer gyrsiau TAR yn ddigon hir i ddiwallu anghenion hyfforddiant pobl anabl.

'Mae bwyd a phrydau ysgol yn fater i aelodau iau y grwp cyfeirio. Nid o ran bwyta yn unig, ond yr holl broses. Enghraifft a ddefnyddiwyd oedd nad oedd plant ag awtistiaeth yn deall bod angen ciwio, ac un arall oedd nad oedd plant hŷn yn cael cario eu harian eu hunain i dalu am eu bwyd. Weithiau roedd yn ymwneud â pharch.'
Glenys Griffiths, Hwylusydd Grwp Cyfeirio o Barnardo's Cymru

2.23 Cyfeiriodd aelod o'r grwp mynediad ar gyfer pobl anabl at awdurdodau lleol sy'n darparu hyfforddiant 'ymwybyddiaeth' i staff sy'n seiliedig ar fodel meddygol yn hytrach na hyfforddiant cydraddoldeb yn seiliedig ar y model cymdeithasol. Dylid ystyried hefyd natur yr hyfforddiant y mae cyrff cyhoeddus yn ei gynnig i'w staff a ph'un a gaiff ei ddarparu gan y rheini sy'n gwybod orau - pobl gyda phrofiad uniongyrchol o anabledd. Mae sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Shaw ac Anabledd Cymru eisoes yn cynnig hyfforddiant i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ac mae cwmpas ar gyfer hyfforddi rhagor o bobl anabl fel hyfforddwyr. Gallai grwpiau lleol hefyd adeiladu eu hadnoddau i ddarparu hyfforddiant os gallant gael yr arian angenrheidiol.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod telerau ac amodau pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl mewn ysgolion, yn cynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, yn caniatáu iddynt gael cyfleoedd hyfforddiant digonol i'w galluogi i roi cymorth llawn i bobl ifanc anabl.

[24] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 17 Mawrth 2005

CYFLOGAETH

Cael cyflogaeth ystyrlon

2.24 Nododd sawl awdurdod lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yr angen am gyfleoedd cyflogaeth ystyrlon, rhywbeth y nododd y grwp cyfeirio fel blaenoriaeth. Nododd NCH Gweithredu dros Blant fod rhai cynlluniau da yn bodoli yng Nghymru ond ei bod yn anodd dod o hyd i gyflogaeth ystyrlon ac nad oedd lleoliadau gwaith bob amser yn arwain at swyddi. Dywedodd hefyd y gallai cynlluniau trosglwyddo o fewn addysg fod yn arwynebol ac na wnaed gwaith dilynol arnynt ar sail rhyng-asiantaethol.

> ‘Nid yw'r broses drosglwyddo bob amser yn glir. Yn aml, nid oes gennych un person y gallwch siarad ag ef. Nid yw rhai pobl yn cael help i wneud eu dewisiadau eu hunain, ac weithiau mae gormod o bobl yn ceisio helpu. Credwn fod ysgolion arbennig yn syniad da ond dylai fod llawer o gyfleoedd a chymorth i fynd i ysgolion prif ffrwd neu i gymysgu â disgyblion yn yr ysgolion hynny.’
> Heather Graham, aelod o'r Grwp Cyfeirio

Profiad gwaith

> ‘Peidiwch â'm hanfon i rywle nad wyf am fynd iddo dim ond er mwyn gwneud hynny.’
> aelod o’r Grwp Cyfeirio

2.25 Roedd gan aelodau o'r Grwp Cyfeirio nifer o straeon am gyfleoedd profiad gwaith diystyr. Nododd Gyrfa Cymru fentrau i gyflogwyr fel rhai o'r mesurau cymorth i'w hystyried wrth geisio helpu pobl ifanc anabl i symud o addysg a hyfforddiant i gyflogaeth. Cefnogodd Cyngres yr Undebau Llafur Cymru y cynnig i sicrhau bod arian ar gael i helpu cyflogwyr i wneud yr addasiadau angenrheidiol i alluogi pobl ifanc i fynd at leoliadau gwaith. Roedd aelodau yn cydnabod y pwysau ar gyflogwyr i gynnig amrywiaeth o leoliadau gwaith a chyfleoedd hyfforddiant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol i'r rheini sy'n goruchwylio pobl ifanc, a rhwystrau ymarferol i fynd i'r afael â hwy ar gyfer pobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Fodd bynnag, mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn cwmpasu lleoliadau profiad gwaith, fel ni ddylai fod yn bosibl i gyflogwyr wrthod cyfleoedd i bobl ifanc anabl. Mae enghreifftiau o arfer da fel arian ychwanegol i alluogi cynorthwywyr

cymorth dysgu i fynd gyda phobl ifanc ar brofiad gwaith, cronfa ddata Gyrfa Cymru yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sy'n nodi cyflogwyr sy'n cynnig lleoliadau profiad gwaith i bobl ifanc anabl, a'r gwasanaeth porth ieuenctid i helpu pobl i ymsefydlu yn y gwaith. Ystyriwyd bod angen rhagor o fuddsoddiad ariannol i sicrhau cysondeb o ran darpariaeth ledled Cymru.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mesurau ychwanegol ar waith, rhai ymarferol ac ariannol, fel cymhellion i gyflogwyr ac arian ar gyfer gweithwyr cymorth, er mwyn sicrhau y cynigir lleoliadau profiad gwaith ystyrlon i bobl ifanc anabl.

Gwasanaethau cymorth cyflogaeth

> ‘Unwaith y mae person wedi bod yn cael budd-dal analluogrwydd am flwyddyn, dim ond un cyfle allan o bump sydd ganddynt o ddychwelyd i'r gwaith o fewn pum mlynedd.’
> Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Llwybrau at waith: Helpu pobl i mewn i gyflogaeth, 2002

> ‘Ar hyn o bryd mae 182,000 o bobl ifanc rhwng 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)’
> Datganiad Cyntaf SFR Yr Adran Addysg a Sgiliau 03/2005 Ionawr 2005

> ‘Mae gennym gyfle i weithio mewn partneriaeth i wneud pethau ychydig yn wahanol ac ychydig yn well yng Nghymru.’
> Clive Stansfield, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Shaw yng Nghymru.

2.26 Mae amrywiaeth o wasanaethau eisoes yn bodoli i helpu pobl ifanc anabl i gyflogaeth sefydlog, er enghraifft hyrwyddo annibyniaeth drwy hyfforddi cynorthwywyr personol (a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop), rhaglenni cyflogaeth fel y Fargen Newydd, broceriaid swyddi a Cham at Waith (a ariennir yn ganolog drwy'r Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)), a'r Taliadau Uniongyrchol a Chynllun Byw'n Annibynnol (a ariennir gan awdurdodau lleol).

2.27 Mae amrywiaeth eang o ffynonellau ariannu ar gyfer sefydliadau sector gwirfoddol. Fodd bynnag ymddengys fod i bob un ei anawsterau ei hun. Er enghraifft ni ariennir cynorthwywyr

personol yn ganolog ond mae'n allweddol i weithredu'r model cymdeithasol. Mae terfyn hefyd ar ariannu'r Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl, y gellid ei ehangu o bosibl pe byddai rhagor o arian ar gael. Mae hefyd posibilrwydd o wrthdaro a dyblygiad rhwng ariannu'r Fargen Newydd ac ariannu'r fenter "Yn Awyddus i Weithio" a ariennir gan gronfeydd yr UE. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol am fod i wahanol ddarparwyr, gwirfoddol, preifat a'r llywodraeth, i gynnig gwasanaethau cyflogaeth.

2.28 Mae'r Pwyllgor yn credu bod grwp mawr o bobl anabl sy'n awyddus i weithio, ac er nad oes llawer o arian yn mynd i'r gwaith o gefnogi hyn, mae cost cadw'r bobl hynny ar fudd-daliadau yn uchel iawn. Mae'r rhaglen Llwybrau at Waith yn mynd i'r afael â'r mater hwn a chafodd ei dreialu i ddechrau yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Erbyn hyn, mae'r Cynllun wedi'i ehangu i Fae Abertawe a Gorllewin Cymru a chymoedd Gwent. Mae lle i ddarparwyr y sector preifat, y sector gwirfoddol a chymunedol ddarparu Llwybrau at Waith yn effeithiol yng Nghymru. Yn 2004 ymatebodd grwp o ddarparwyr i adroddiad rhag-gyllidebol 2004 ar gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl ac amlygwyd opsiynau penodol i gynyddu eu cyfranogiad:

- **Gall y sector gwirfoddol a chymunedol ddarparu cysylltiad gwell â'r cleientiaid hynny sy'n anodd eu helpu** - ac maent wedi dangos eu gallu i ddiwallu anghenion anodd cleintiaid sy'n anodd eu helpu. Ni wnaeth cleientiaid broceriaid swyddi guddio'r ffaith eu bod yn mynd at ddarparwyr sector preifat a sector gwirfoddol a chymunedol oherwydd eu bod ar wahân i'r Llywodraeth.

- **Cyflymder cyflwyno cynllun peilot Llwybrau** - gall gosod y gwasanaeth Llwybrau ar y sector preifat a'r sector gwirfoddol a chymunedol mewn ardaloedd newydd hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r cynllun.

- **Ehangu amrywiaeth gwasanaethau yn Llwybrau at Waith** - mae gwasanaethau fel lleoli cyngor ymgynghorwyr cyflogaeth mewn meddygfeydd teulu a ffyrdd eraill i ganiatáu i ddarparwyr gyrraedd cleintiaid yn cael eu teilwra er mwyn i'r sector gwirfoddol a chymunedol helpu i'w cyflwyno.

- **Galluogi'r Ganolfan Byd Gwaith i gyflwyno gwasanaethau gyda seilwaith symlach a llai o staff** - mae cysylltiad agosach

rhwng cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith gorfodol a'r gwaith cynllunio gweithredol a gyflawnir gan froceriaid swyddi yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwell effeithlonrwydd - fel y cynigiwyd gan adolygiad Gershon - heb unrhyw golled i gleientiaid anabl.

Mae Laura yn defnyddio cadair olwyn ac esboniodd y problemau a gafodd yn y coleg:

‘Nid oedd gennyf unrhyw ffrindiau yng ngholeg Abertawe. Cefais fy ngadael mewn coridor. Ni wnaeth y staff yn y coleg fy helpu ac nid oeddent yn gyfeillgar iawn. Roeddwn yn y coleg am ddwy flynedd mewn adran anghenion arbennig ac yna dilynais gwrs mynediad BTec prif ffrwd. Llwyddais mewn arholiad bysellfwrdd a bellach rwy'n gweithio yma. Rwy'n cael budd-daliadau felly ni allaf weithio'n llawn amser ond o dan y cynllun 'gwaith a ganiateir' rwy'n gweithio yma dau ddiwrnod yr wythnos. Rwyf wedi gweithio mewn gwahanol adrannau. Rwy'n cael tacsi yma ac mae fy rheini yn dod i'm casglu.’
Mae Laura o Dreforys yn gweithio fel brocer swydd yn Ymddiriedolaeth Shaw.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i nodi ffyrdd y gellir cynnwys sefydliadau gwirfoddol yn fwy wrth gyflwyno mentrau wedi'u hanelu at helpu pobl ifanc anabl i gael gwaith sefydlog.

Y system fudd-daliadau a rhwystrau i waith

‘Rydym wedi edrych ar y mathau o bethau sy'n peri problem gyffredinol i bobl ifanc wrth ddod o hyd i swydd, ac mae llawer o'r rheini yn canolbwyntio ar fudd-daliadau. Mae'r system fudd-daliadau yn dod yn fwy hyblyg, drwy bethau fel Gyrfâu a Mwy a budd-dal cymorth i gyflogaeth, yn ogystal â budd-dal allan o gyflogaeth, sef os bydd yn rhaid i rywun adael cyflogaeth oherwydd nad oes ganddynt ddigon o gymorth, bydd cymorth ariannol i wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw ar gael i bawb, ac mae'n rhaid i lawer o bobl ddewis peidio â gweithio oherwydd na allant beryglu cael cyfnod o ddim budd-daliadau na dim incwm, os na allant barhau i weithio oherwydd diffyg cymorth neu gymorth priodol. Roedd hwnnw'n fater arwyddocaol o ran, 'Ni allaf fforddio cymryd y risg.’

Tim Ruscoe, Hwylusydd Grwp Cyfeirio Barnardo's Cymru

2.29 Mae cynigion a gynlluniwyd i helpu pobl i symud o fudd-daliadau i waith yn welliant ar y sefyllfa bresennol, ond mae rhwystrau o hyd o ran budd-dal tai a chymhorthdal incwm ac mae angen adolygu'r rheolau ynghylch 'gwaith a ganiateir'. Gwnaed gwaith ar gyfer Canolfan Sainsbury gan Patience Seebohm a Judy Scott i fynd i'r afael ag anghymhellion i waith, a gynigiodd welliannau radical o ran diystyru enillion, ehangu gwaith a ganiateir a chyflwyno credyd treth cychwynnol[25].

2.30 Mae partneriaid yng Nghymru mewn Partneriaeth Pan-Anabledd (yn cynnwys RNID, RNIB, SCOVO, Mencap, Scope, Ymddiriedolaeth Shaw) yn awyddus i nodi ffyrdd o ddefnyddio dulliau a rhaglenni ariannu gwahanol o ran cymorth yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, y sector cyflogaeth a'r sector addysg i ddatblygu arfer gorau. Mae angen defnyddio arian rhaglen cyflogaeth, taliadau uniongyrchol, arian gofal cymdeithasol ac iechyd mewn ffordd fwy cydygysylltiedig i alluogi pobl i gyflawni gweithgaredd economaidd. Yn dilyn hynny, gellir cyflwyno enghreifftiau o Gymru i'r broses o ddatblygu polisïau ledled y DU.

2.31 Mae'r fiwrocratiaeth o ran gwneud cais am fudd-daliadau yn broblem i lawer o bobl anabl, a byddai mwy o hyblygrwydd i ganiatáu i bobl weithio oriau hyblyg yn dibynnu ar eu cyflwr heb golli budd-daliadau, yn cael gwared ar un anghymhelliad i weithio. Mae rhwystrau penodol i waith i bobl mewn gofal preswyl oherwydd bod eu budd-daliadau ynghlwm â'r broses o ddarparu eu pecyn gofal preswyl.

2.32 Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn fwy rhagweithiol wrth gynorthwyo cleientiaid i symud tuag at gyflogaeth.

'Mae llawer o bobl yr ystyrir eu bod yn anghyflogadwy yn cael eu hystyried fel pobl gyflogadwy iawn gan Ymddiriedolaeth Shaw a gall rhai weithio llawer mwy o oriau nag a feddyliwyd oedd yn bosibl. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol atal rhag anfon pobl i ganolfannau dydd ac edrych ar opsiynau cyflogaeth ar eu

[25] *Addressing disincentives to work associated with the welfare benefits system in the UK and abroad*. Patience Seebohm a Judy Scott. Canolfan Sainsbury ar gyfer Iechyd Meddwl - Hydref 2004

cyfer hwy. Mae Ymddiriedolaeth Shaw yn awyddus i weithio gyda gweithwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol proffesiynol i symud pobl i waith a'u helpu i fod yn fwy cryf a hyderus. Nid yw'n ymwneud â'r anabledd ond â newid y meddylfryd.'
Clive Stansfield, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Shaw yng Nghymru

2.33 Mae Canolfan Anabledd Dysgu Prifysgol Cymru hefyd yn cynnal gwaith ymchwil i arfer gorau o ran helpu pobl i drosglwyddo o ddysgu i waith[26].

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud sylwadau i'w chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y canlynol:

Yr angen i oresgyn anghymhellion i bobl anabl weithio o fewn y system fudd-daliadau bresennol;

Yr angen i gynnwys digon o hyblygrwydd yn yr Asesiad Gallu Personol i ystyried cyflyrau meddygol cyfnewidiol;

Yr angen i sicrhau bod yr Asesiad Gallu Personol ar gael drwy gyfrwng sy'n briodol i bob unigolyn.

Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau weithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu ffyrdd y gellir defnyddio cyllidebau a'r system fudd-daliadau yn greadigol i sicrhau bod Adrannau Whitehall yn cefnogi polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyfle cyfyngedig i bobl ifanc â nam ar eu clyw

'Mae gennym 60 o aelodau. Ar hyn o bryd rydym wedi nodi materion megis arwahanrwydd, hyder, hunanhyder a chymdeithasu. Nid oes gan sefydliadau presennol adnoddau i ddarparu gwasanaethau i'n haelodau. Rydym wedi gwneud cais am arian ond wedi bod yn aflwyddiannus. Sut y bydd eich adolygiad polisi yn newid y sefyllfa hon i'n galluogi i lenwi'r bwlch anferth hwn sy'n effeithio ar hamdden, trosglwyddo, hyfforddiant a

[26] http://www.cardiff.ac.uk/medicine/psychological_medicine/research/welsh_centre_learning_disabilities/research/transition_from_school/index.htm

chyflogaeth?’
Les Rose, Cyswllt, Cymdeithas Plant Byddar.

‘Mae pobl ifanc fyddar yn cael eu gorfodi i fod yn annibynnol trwy eu harwahanrwydd.’
Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru

2.34 Wrth ymateb i'r ymgynghoriad nododd y Gymdeithas Pobl Fyddar y ffaith nad oes ysgolion ar gyfer plant byddar yng Nghymru ac nid yw unedau rhannol fyddar ar gyfer plant byddar yn darparu digon o gymorth cyfathrebu yn Iaith Arwyddion Prydain. Mae pobl ifanc fyddar yn aml yn teimlo'n unig - efallai nad oes ganddynt lawer o gyfoedion byddar, cânt eu bwlio ac ni allant gyfathrebu ag aelodau eu dosbarth. Ni allant gael gafael llawn ar addysg uwch ac addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth yn rhannol oherwydd gorbwyslais ar therapi lleferydd ac iaith yn hytrach na hyrwyddo defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r Cymdeithas Pobl Fyddar hefyd yn dweud nad yw plant byddar yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg, hyd yn oed os ydynt o deulu sy'n siarad Cymraeg, oherwydd bod gweithwyr proffesiynol yn cynghori y bydd yn 'ddryslyd'.

2.35 Mae diffyg cyrhaeddiad pobl fyddar mewn addysg a chyflogaeth yn creu cylch cythreulig gan nad oes oedolion byddar mewn rolau proffesiynol i roi cymorth i bobl ifanc fyddar. Mae diffyg darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u hyfforddi yn Iaith Arwyddion Prydain yn effeithio ar bob maes ym mywyd person ifanc byddar. Mae'n eu hatal rhag cael modelau rôl byddar, yn eu hatal rhag cyfathrebu â chyfoedion, yn eu rhwystro rhag cael gafael ar wybodaeth i'w galluogi i deithio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Nid oes cyngor gyrfaoedd o ansawdd yn Iaith Arwyddion Prydain ar gael. Mae myfyrwyr byddar ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd wedi bod yn dilyn cyrsiau gradd ond cyflwynwyd eu gwaith i'w asesu ar ffurf ysgrifenedig yn hytrach nag Iaith Arwyddion Prydain sef eu hiaith naturiol. Mae prinder a chost dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn anghymhelliad i golegau a darparwyr hyfforddiant rhag darparu ar gyfer myfyrwyr byddar, sydd weithiau yn gorfod mynd i golegau preswyl y tu allan i'r wlad i ddilyn cyrsiau addas.

‘Rwy'n mynd i Brifysgol Wolverhampton ym mis Medi. Mae'r Brifysgol wedi archebu dehonglwyr ar gyfer y tair blynedd o'm gradd ac mae cymuned o bobl fyddar yno, ond byddai'n well

gennyf allu astudio yn agosach i gartref.

Mae'n bwysig iawn cael rhagor o ddehonglwyr laith Arwyddion Prydain cymwys yng Nghymru. Euthum i ysgol gyfun brif ffrwd, a oedd yn iawn ond nid oedd gennyf lawer o ffrindiau achos nid oeddent yn gallu fy neall. Byddai'n well gennyf fod wedi bod gyda llawer o bobl fyddar ond roedd yr ysgol agosaf yn bell iawn ac roedd yn fwy llafar, ac mae'n well gennyf ddefnyddio arwyddion.

Gwaith cwrs yn unig oedd llawer o fy arholiadau. Roeddwn dan lawer o straen. Roedd llawer o bwysau yn enwedig yn Saesneg. Byddai'n well gennyf fod wedi gallu arwyddo'r atebion i'r cwestiynau mewn arholiadau pe bai'n bosibl.

Rwy'n dilyn BTec mewn Gwyddoniaeth Chwaraeon a byddwn yn hoffi ymwneud ag athletau byddar ond yng Nghymru, er mwyn ymwneud â phobl fyddar mae'n rhaid i'r hyfforddwyr fod yn gymwys mewn laith Arwyddion Prydain er yn cyfathrebu â mi."

Mae llawer o rwystrau i ddod o hyd i feddyg a chael dehonglydd i gynorthwyo pobl fyddar. Nid yw llawer o feddygfeydd teulu hyd yn oed yn dangos y poster sy'n dangos yr arwyddion laith Arwyddion Prydain ar gyfer cyflyrau meddygol gwahanol.'
Jodie, merch ifanc fyddar o Faesteg

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ei strategaeth i wella darpariaeth gwasanaethau laith Arwyddion Prydain, yn cynnwys dehonglwyr, yng Nghymru yn cyflawni ei hamcanion drwy ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd.

Rôl Cyflogwyr

'Mae 43 y cant o bobl anabl o oedran gweithio mewn cyflogaeth yng Nghymru, o gymharu ag 83 y cant o bobl nad ydynt yn anabl. Roedd 86 y cant o'r rhai a ymatebodd yn credu ei bod yn anos iddynt hwy ddod o hyd i swyddi na phobl nad ydynt yn anabl. Dywedodd un ym mhob wyth eu bod wedi cael eu gwrthod ar gyfer swydd ac yna cael gwybod bod y rheswm yn gysylltiedig â'u hanabledd neu eu nam.'
TUC Cymru

2.36 Dywedodd TUC Cymru eu bod wedi gweithio gyda'r CBI ar godi ymwybyddiaeth o faterion anabledd a chydraddoldeb ond y gellid gwneud mwy, yn cynnwys ystyried materion anabledd yn yr agenda bargeinio a gweithio gyda chynrychiolwyr iechyd a diogelwch i sicrhau na ddefnyddir cyfraith iechyd a diogelwch fel rhwystr i gyflogi pobl anabl[27]. Mae'n bwysig nad yw diffyg dealltwriaeth am natur 'addasiadau rhesymol' sydd eu hangen o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn creu adlach yn erbyn cyflogeion.

2.37 Ymddengys fod diffyg cyngor a gwybodaeth o ansawdd da am gydraddoldeb i bobl anabl yn y gweithle. Awgryma gwaith ymchwil fod pobl anabl yn fwy tebygol o fod mewn swyddi â thâl isel ac yn ei chael yn anodd symud i fyny'r ysgol yrfa. Mae arfer da a gwael ymysg cyflogwyr wrth gysylltu tâl â systemau arfarnu. Mae rhai systemau dal yn methu ag ystyried nam unigolion ac felly'n wahaniaethol.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat ac Undebau Llafur i roi strwythurau ar waith i annog pobl i gyflogi pobl anabl.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y cynhelir yr opsiynau i bobl ifanc o ran cyflogaeth dan gymorth.

Hunangyflogaeth

2.38 Canfu'r Pwyllgor fod y prif rwystrau i hunangyflogaeth fel a ganlyn:

- **Profiad gwaith cyfyngedig** - mae gan 90 y cant o bobl ifanc anabl brofiad gwaith cyfyngedig, os o gwbl, ac felly nad oes ganddynt sgiliau y gellir eu trosglwyddo ar gyfer hunangyflogaeth.

- **Budd-daliadau** - mae dibynnu'n fawr ar fudd-daliadau o oedran ifanc yn gwneud y broses o newid i fod yn hunangyflogedig hyd yn oed yn fwy brawychus.

[27] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal , 30 Mehefin 2005

- **Hygyrchedd gwybodaeth** - yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r system fudd-daliadau yn rhyddhau unigolion i brofi eu busnes yn fasnachol - nid yw ar gael yn rhwydd i bobl ifanc anabl ac mae'n llawn jargon

- **Amgylchedd corfforol hygyrch ar gyfer gwasanaethau cymorth busnes -** mae'n rhaid i gleientiaid anabl gael eu cyfeirio at leoliadau hygyrch i gael gafael ar wasanaethau cymorth busnes fel marchnata a chyllid.

- **Hyder i gyfleu anghenion mynediad** - mae angen help ar rai pobl anabl i roi hyder iddynt gyfleu eu hanghenion.

- **Diffyg anogaeth gan weithwyr addysg proffesiynol** - Efallai na chaiff pobl ifanc anabl eu hannog mewn ysgolion a cholegau i ystyried hunangyflogaeth ac i ddewis opsiynau cyflogaeth mwy 'diogel'. Gallai annog entrepreneuriaeth helpu i leihau nifer y bobl anabl sydd wedi graddio â chymhwyster uchel sy'n methu â dod o hyd i gyflogaeth.

Argymhelliad 22: Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag Anabledd Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a sefydliadau cyflogwyr eraill i ddatblygu ffyrdd y gellir annog pobl ifanc anabl i ystyried hunangyflogaeth fel opsiwn ar gyfer llwybr gyrfa yn y dyfodol.

PENNOD 3

TRAFNIDIAETH

3.1 Mae llawer o bobl anabl yng Nghymru yn ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, a chydnabyddir diffyg hygyrchedd fel problem, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae anallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amddifadu pobl ifanc anabl yng Nghymru o hawliau sylfaenol i ddod o hyd i weithgareddau hamdden a chyflogaeth. Mae rhai mathau o drafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ond efallai na chaiff anableddau eraill eu hystyried.

3.2 Dywedodd y Comisiwn Hawliau Anabledd wrthym mai 'gwasanaeth porth' yw trafnidiaeth yn ei hanfod - gan nodi os na all unigolion gael mynediad i drafnidiaeth ac os nad oes ganddynt hyder i fynd o amgylchedd eu hamgylchedd lleol yna nid ydynt am ddefnyddio gwasanaethau[28].

3.3 Gwnaeth grwp cyfeirio'r Pwyllgor flaenoriaethu trafnidiaeth fel mater. Cymrodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Drenau Arriva Cymru, BusUsers UK yng Nghymru, Uned Teithio Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Hawliau Anabledd, sy'n eistedd ar Bwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Teithwyr Anabl[29].

3.4 Nid yw hygyrchedd yn gyfyngedig i'r rheini sydd â materion symudoledd neu ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Ystyrir y gadair olwyn fel symbol cyffredinol anabledd, ond ni ellir gweld llawer o namau - mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn amcangyfrif bod llai na 6% o bobl anabl yn ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, nododd Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru fod gan bobl ifanc anabl fynediad anghyfartal i drafnidiaeth gyhoeddus, gan nodi'r enghraifft fod cyhoeddiadau mewn gorsafoedd trenau yn gwbl anhygyrch a gall hyn arwain at lai o hyder wrth deithio ar eich pen eich hun ac felly llai o annibyniaeth.

Mae hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn bob amser yn fater, ond nid dim ond defnyddwyr cadeiriau olwyn sy'n wynebu problemau, ond y rheini sydd â nam ar eu golwg, y rheini sydd â nam ar eu clyw ac ati. Nid mater o gael bysiau hygyrch ydyw yn

[28] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 12 Hydref 2005
[29] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 12 Hydref 2005

unig. Mae'n ymwneud â rheoli parcio wrth arosfannau bysiau, cael arwyddion addas mewn gorsafoedd bysiau ac amserlenni addas ar gyfer pobl na allant ddarllen amserlen gyffredin - ac ni all y rhan fwyaf ohonom wneud - er mwyn cyflwyno'r wybodaeth mewn ffyrdd sy'n hawdd eu deall.
Leo Markham o BusUsers UK

Deddfwriaeth

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, Rhan 3

3.5 Er bod Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ddarparwyr gwasanaethau wahaniaethu yn erbyn pobl anabl wrth ddarparu nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau, ni chwmpaswyd trafnidiaeth gan y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, er bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i orsafoedd bysiau a rheilffordd a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus eraill fod yn hygyrch, nid oedd hyn yn gymwys i'r bysiau a'r trenau. Fodd bynnag, diwygiodd *Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005* y ddeddfwriaeth wreiddiol i gywiro'r anghysondeb hwn ac i hwyluso hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus ymhellach.

3.6 O fis Rhagfyr 2006 bydd yn/daeth yn anghyfreithlon i weithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus:

- wahaniaethu yn erbyn pobl anabl;
- trin pobl anabl yn llai ffafriol;
- methu â gwneud addasiadau rhesymol i'r ffordd y darperir eu gwasanaethau.

3.7 Ym mis Ebrill 2006 lansiodd Adran Drafnidiaeth Llywodraeth y DU God Ymarfer ar Ddarparu a Defnyddio Cerbydau Trafnidiaeth. Mae'r Cod, a gafodd ei ddatblygu gan y Comisiwn Hawliau Anabledd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, yn esbonio diben y newidiadau yn y gyfraith a chafodd ei gyhoeddi ar gais gan yr Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Mae'n berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

3.8 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth a datblygiad y Cod, sy'n ceisio gwella hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth i bobl anabl. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn gyson ledled Cymru.

Mynediad Corfforol a Seilwaith

3.9 Er y cofnodwyd bod hygyrchedd corfforol bysiau yng Nghymru yn 80 i 90 y cant mewn rhai dinasoedd, dim ond 30 y cant ydyw yn gyffredinol, sy'n golygu na cheir gwasanaethau bysiau hygyrch yn gyson mewn ardaloedd mawr. Weithiau ni chaiff gwybodaeth am fysiau hygyrch ei chyfleu yn ddigon clir. Gall hyn arwain at rywun yn dechrau taith ar fws hygyrch ac yna'n canfod nad oes bws hygyrch ar gyfer y daith yn ôl.

3.10 Mae Trenau Arriva Cymru yn gwasanaethu siroedd Cymru a Lloegr sydd ar y ffin. Mae ganddynt 235 o orsafoedd, 48 ohonynt â staff. Codwyd annibyniaeth a'r gallu i fod yn ddigymell wrth wneud penderfyniadau fel mater gan y grwp cyfeirio. Roedd gorsafoedd heb staff yn creu problemau penodol i deithwyr anabl. Nododd y Pwyllgor y gellid rhoi rhybudd o daith ymlaen llaw i wasanaethau cymorth.

3.11 Nododd BusUsers UK yng Nghymru arosfannau bysiau fel problem benodol. Nodwyd mewn gormod achosion, nad oedd gwahaniaeth p'un a oedd bws yn hygyrch ai peidio gan fod gyrwyr ceir yn llawer yn rhy aml yn parcio mewn mannau dynodedig gan ei gwneud yn amhosibl defnyddio bysiau wedi'u haddasu.

3.12 O ran teithiau trenau a bysiau, nododd y Comisiwn Hawliau Anabledd fod cysondeb gwasanaeth yn broblem wirioneddol, gan nodi pan fydd unigolyn yn gofyn am gymorth mewn un orsaf, nid yw'r cymorth hwnnw o reidrwydd ar gael ar ddiwedd neu yng nghanol y daith.

Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru monitro a gweithredu'r cod ymarfer statudol ar drafnidiaeth ledled Cymru.

Cael gafael ar wybodaeth

3.13 Roedd y Pwyllgor yn teimlo bod cael gafael ar wybodaeth yn fater allweddol i wella'r canfyddiad o wasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru. Nododd Arriva eu bod wedi cyhoeddi *arweiniad i gwsmeriaid ag anableddau* [30] sydd ar gael o orsafoedd â staff ac

[30] Trenau Arriva: Arweiniad i Gwsmeriaid ag Anableddau http://www.arrivatrainswales.co.uk/uploads/documents/1109.pdf

ar wefan y cwmni. Mae'r arweiniad yn cynnwys rhestr o orsafoedd yng Nghymru gan fanylu ar hygyrchedd gorsafoedd o ran oriau staffio, nifer y platfformau, mynediad cadeiriau olwyn i blatfformau, toiledau hygyrch, a mynediad cadeiriau olwyn i drenau. Mae'r arweiniad hefyd yn rhoi gwybod am y cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid â nam ar eu clyw. Fodd bynnag, rhannodd Arriva bryder y Pwyllgor nad oedd y bobl y mae angen y wybodaeth fwyaf arnynt yn ymwybodol ohoni fel arfer. Awgrymodd aelodau o'r grwp cyfeirio y dylai fod gwybodaeth fel hyn ar gael mewn gorsafoedd trenau a bysiau, swyddfeydd gwybodaeth ac ati a dylid gwneud defnyddwyr neu ddarpar ddefnyddwyr yn fwy ymwybodol o'r wybodaeth.

3.14 Er y cyhoeddir canllawiau i gynorthwyo cwsmeriaid ag anableddau, awgrymir mai ychydig iawn o'r gynulleidfa darged sy'n ymwybodol ohonynt. Nid oedd pobl ifanc anabl ychwaith yn gweld pam y dylent orfod ffonio cyn eu taith i sicrhau y gallent ddefnyddio gwasanaethau.

Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda darparwyr trafnidiaeth i sicrhau bod gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth i bobl anabl ar gael mewn fformatau hygyrch.

Rhwystrau o ran agweddau

‘Cynhaliodd un o'r bobl ifanc yn y Grwp Cyfeirio ymchwil mewn ysgolion a cholegau o ran trafnidiaeth. Canfu nad oedd llawer o bobl ifanc anabl yn defnyddio bysiau a threnau yn aml. Y rheswm am hyn oedd bod eu rheini yn ofni gadael i'w plant ddysgu sut i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar eu pen eu hunain, gan eu bod yn credu bod gormod o beryglon. Yn lle hynny maent yn dibynnu ar eu rhieni neu ar dacsi i fynd un man i'r llall. Sut y gallwch helpu i fagu hyder pobl ifanc a'u teuluoedd, gan eu galluogi i ddefnyddio eich gwasanaeth mewn ffordd ddiogel, ac annog annibyniaeth?
Heather Graham, aelod o'r Grwp Cyfeirio

3.15 Roedd y Pwyllgor yn siomedig i glywed tystiolaeth gan y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Grwp Cyfeirio o agweddau gwael ymysg staff gwasanaeth trafnidiaeth. O ran gwasanaethau bysiau, nododd y Comisiwn Hawliau Anabledd fod cod ymarfer gwirfoddol i yrwyr bysiau ond roeddent hefyd yn ymwybodol o enghreifftiau o

agweddau gwael. Er enghraifft, roedd yn rhaid i ddefnyddiwr cadair olwyn aros dair awr wrth arhosfa fysiau wrth i dri bws fynd heibio. Er bod pob bws yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn, roedd y gyrrwr yn fodlon gofyn i bobl â phramiau sy'n plygu i'w symud o'r mannau a ddynodwyd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Nododd y Grwp Cyfeirio, o ran mynediad, bod mynediad corfforol yn ail i broblem agwedd staff a dyma beth oedd yn gwneud iddynt deimlo'n anniogel ac yn anesmwyth wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Argymhelliad 25: Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer y broses dendro sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig tendrau neu gontractau dim ond i weithredwyr sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant a gymeradwywyd, sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd.

3.16 Nododd BusUsers UK, yn gyffredinol, y darparwyd hyfforddiant yn well gan y cwmnïau mwy na'r cwmnïau llai. Awgrymwyd mai un ateb posibl oedd y dylai'r Cynulliad ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau mai dim ond i weithredwyr sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant a gymeradwywyd y dylai awdurdodau ddyfarnu contractau. Nid oedd gweithredwyr llai mewn sefyllfa cystal i ddarparu neu gefnogi hyfforddiant o'r fath, felly efallai bod angen cymorth y Llywodraeth arnynt.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gynhyrchu canllawiau i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer gyrwyr a gwarchodwyr ar anghenion a hawliau pobl anabl sy'n defnyddio'r system drafnidiaeth yn briodol ac yn cael ei roi yn rheolaidd. Dylid ei ddatblygu ar y cyd â phlant a phobl ifanc a dylid monitro ei effeithiau.

3.17 Codwyd mater hyfforddiant cymorth trafnidiaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd a nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddent yn ystyried gwneud hyfforddiant yn ofynnol yn hytrach nag yn opsiwn wrth ariannu trafnidiaeth gymunedol. Ystyriodd y Pwyllgor fod hyfforddiant ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth anabl yn fater allweddol.

3.18 Er y cydnabyddir bod diogelwch yn fater i bawb sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r canfyddiad o risg yn aml

yn fwy na'r realiti. Teimlir hefyd y dylai darparwyr gwasanaethau wneud fwy i roi cyhoeddusrwydd i'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau a magu hyder am bobl ifanc anabl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Roedd un aelod o'r grwp cyfeirio wedi cael hyfforddiant trafnidiaeth gyhoeddus ac yn credu ei fod yn fuddiol iawn, ond mae'n amlwg bod argaeledd asiantaethau hyfforddiant teithio ledled Cymru yn amrywiol.

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hyfforddiant cymorth ar gyfer pobl ifanc anabl ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gael ym mhob rhan o Gymru.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda darparwyr trafnidiaeth a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod digon o gymorth a gwybodaeth ar gael i rieni a gofalwyr pobl ifanc anabl i gael yr hyder i ganiatáu i'w pobl ifanc ddefnyddio'r system drafnidiaeth.

3.19 Nododd y Comisiwn Hawliau Anabledd broblem gyda'r gyfraith gyfredol o ran eu bod yn cael anawsterau gyda chysondeb y cais. Gan fod bysiau hygyrch yn cael eu darparu yn yr ardaloedd â'r boblogaeth fwyaf, roedd hyn yn anochel yn golygu nad oedd ardaloedd mawr o gefn gwlad Cymru â bysiau hygyrch.

PENNOD 4

BYW YN ANNIBYNNOL

Mae byw yn annibynnol yn golygu:
Byw ar eich pen eich hun i ffwrdd o'ch teulu. Cael rhyddid i wneud yr hyn a fynnwch pan y mynnwch gyda phwy bynnag a fynnwch. Rheoli eich bywyd. Talu eich ffordd a chael y cymorth sydd ei angen arnoch pan fyddwch ei eisiau.

Eich bywyd ni ydyw.[31]
Datganiad gan y Grwp Cyfeirio Pobl Ifanc Anabl

4.1 Roedd y gallu i bobl ifanc anabl fyw yn annibynnol yn thema a oedd yn gyffredin yn yr holl dystiolaeth a roddwyd a'r materion a godwyd gan y grwp cyfeirio. Trafodwyd rhai o'r materion hyn mewn penodau blaenorol. Mae'r bennod hon yn delio â materion eraill sy'n gysylltiedig â byw yn annibynnol.

4.2 Dyma rai o'r materion a nododd y Grwp Cyfeirio:

- Byw ar eich pen eich hun a chael cymorth pan fyddwch ei angen arnoch

- Byw gyda phobl ifanc eraill

- Dysgu sgiliau newydd

- Perthnasau - gyda phobl ifanc eraill, gyda rhieni/teulu, gyda chariadon, gyda gofalwyr a gweithwyr cymorth

- Rheoli eich bywyd

- Gallu talu eich ffordd eich hun

- Arian - i dalu am rent/biliau/cymorth/trafnidiaeth/nwy/trydan/bwyd/budd-daliadau

[31] Cyfarfod Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Mawrth 2006, paragraff 214.

- Gwybodaeth – ‘Mae angen rhagor o wybodaeth arnom mewn rhagor o fannau oherwydd yn aml rydym yn canfod pethau trwy ddamwain’

4.3 Ategwyd y pwynt olaf hwn gan lawer o'r unigolion a'r sefydliadau y cawsom dystiolaeth ganddynt. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru:

> ‘Mae'r ymagwedd bresennol o ran hyrwyddo annibyniaeth pobl ifanc anabl a'u cynorthwyo i reoli'u bywydau eu hunain yn digwydd yn ddiofyn oherwydd bod y ffaith na allant gael gafael ar y wybodaeth a'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt, yn eu gorfodi i fod yn annibynnol trwy eu harwahanrwydd.’

Dywedodd Chwarae Teg:

> ‘Darparu gwybodaeth glir a hygyrch yw'r peth pwysicaf i alluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus’.

Tai a Llety

4.4 Clywsom enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion a cholegau gyda chyfleusterau preswyl i bobl ifanc fel Ysgol Hendre yng Nghastell-nedd[32]. Mae eu gwaith nid yn unig yn cynnwys addysg academaidd ond addysg am fywyd, perthnasau a sgiliau byw yn annibynnol. Mae colegau preswyl fel Coleg Beechwood yng Nghaerdydd a Choleg Addysg Uwch Pengwern yn Sir Ddinbych hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol a sgiliau bywyd i bobl ifanc ag amrywiaeth o anableddau.

4.5 Nid yw'r ysgolion a'r colegau sydd â chyfleusterau preswyl yn gyffredin yng Nghymru. Dangosodd y dystiolaeth gan Ysgol Hendre mai dim ond tair neu bedair ysgol yng Nghymru sydd â chyfleusterau tebyg iddynt.

4.6 Ategodd tystiolaeth Scope Cymru y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree[33] am ddiffyg tai addas i alluogi pobl ifanc i adael cartref a byw yn annibynnol. Roedd yr adroddiad yn sôn yn benodol am ddiffyg llety addas yn y sector rhentu preifat a ddefnyddir yn aml gan bobl ifanc nad ydynt yn anabl sydd am

[32] Cyfarfod Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Mawrth 2006, paragraff 124 ymlaen.
[33] Morris, Jenny 2004 *Moving into Adulthood,* Sefydliad Joseph Rowntree

fyw yn annibynnol am y tro cyntaf. Mae dewisiadau pobl ifanc anabl o ran lle i fyw yn aml yn seiliedig ar ba swyddi gwag sydd ar gael yn y gwasanaethau a'r cynlluniau ar wahân. Yn aml mae'r lleoedd hyn yn anaddas i bobl ifanc o ran eu hanghenion ac oedran a chyflyrau aelodau eraill y gymuned y byddant yn ymuno â hi.

4.7 Gwnaethom hefyd glywed am ymagweddau gwahanol gan awdurdodau lleol, gyda llawer yn sôn am y diffyg blaenoriaeth a roddwyd gan yr adrannau tai a diffyg gwaith cydgysylltiedig rhwng yr Adrannau Tai, yr Adran Gynllunio a gwasanaethau cymdeithasol fel y prif reswm dros ddiffyg tai addas. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn cyflwyno ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â'r broblem. Mae Dinas a Sir Abertawe yn datblygu strategaeth llety i bobl ag anableddau ac mae ganddynt swydd dros dro sy'n rhoi cymorth i bobl i ddod o hyd i dai addas ar gyfer eu hanghenion. Yn Sir Benfro, mae'r NCH yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu amrywiaeth o opsiynau tai i bobl ifanc anabl a derbyn bod ganddynt hawl i fyw yn annibynnol ar eu rhieni.

Argymhelliad 29: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal asesiadau anghenion tai rheolaidd ymhlith pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o namau. Dylid defnyddio'r rhain i lywio polisi tai gyda'r bwriad o sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc anabl eu diwallu.

Argymhelliad 30: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithio gyda'r sector cyhoeddus, preifat, annibynnol a gwirfoddol i nodi a chynyddu faint o dai rhent addas sydd ar gael i bobl ifanc anabl.

Argymhelliad 31: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar anghenion tai pobl ifanc anabl yn cynnwys canllawiau ar y cymorth sydd ei angen, addasiadau ac arian sydd ar gael am unrhyw waith sydd ei angen.

Taliadau Uniongyrchol

4.8 Gwnaethom dderbyn tystiolaeth gan Ymddiriedolaeth Shaw[34] o'r effaith y mae Taliadau Uniongyrchol yn ei chael ar fywydau pobl ifanc anabl. Mae'r taliadau yn eu galluogi i fyw yn fwy annibynnol drwy gyflogi eu gofalwyr eu hunain i ddarparu gofal personol a chymdeithasol. Gwnaethom glywed bod cyflogi cynorthwy-ydd personol yn galluogi pobl i fynd allan gyda'i gilydd fel teulu lle mae brodyr a chwiorydd anabl a rhai nad ydynt yn anabl, a gall hefyd ganiatáu i ffrind y mae'r person anabl yn gyfforddus â hwy helpu gyda gofal personol.

4.9 Fodd bynnag, mae problemau gyda'r cynllun Taliadau Uniongyrchol. Nododd tystiolaeth Scope[35] i ni ym mis Medi 2004 nifer o broblemau gyda'r system. Amlygwyd:

- Diffyg gwybodaeth am Daliad Uniongyrchol fel opsiwn;
- Dim digon o gymorth a gwybodaeth am sut i wneud cais am Daliadau Uniongyrchol;
- Nid oedd y wybodaeth a oedd ar gael wedi'i theilwra i ddiwallu anghenion penodol cleientiaid;
- Diffyg gwybodaeth fanwl a dull o hyrwyddo'r cynllun gan weithwyr cymdeithasol blaenllaw;
- Ansicrwydd gan y gwasanaethau cymdeithasol a phobl anabl o ran beth y gellir defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar eu cyfer.

4.10 Ymddengys nad aethpwyd i'r afael â'r materion hyn yn ddigon cyflym. Amlygodd tystiolaeth Ymddiriedolaeth Shaw ddeuddeg mis yn ddiweddarach broblemau tebyg gyda'r Cynllun. Maent hefyd wedi amlygu bylchau yn faint o bobl sy'n defnyddio'r Cynllun ar draws yr awdurdodau lleol yng Nghymru a'r ffaith nad oedd yn gweithio'n dda i bobl ag anableddau dysgu pan oeddent yn cael eu hasesu ar gyfer eu haddasrwydd i reoli Taliadau Uniongyrchol.

4.11 Amlygodd y Grwp Cyfeirio mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2006[36], broblem o ran pa mor araf y gweithredir y system dalu, sy'n aml yn cymryd hyd at 12 mis i wneud asesiadau a'r ffaith eu bod yn poeni am eu rôl fel 'cyflogwyr' o dan y cynllun.

---

[34] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Medi 2005 EOC(2) - 07-05(p7)
[35] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 13 Ionawr 2005 EOC(2) - 01-05(p6)
[36] Cyfarfod Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 22 Mawrth 2006, paragraff 222

Fodd bynnag, ei brif bryder oedd y diffyg gwybodaeth a'r help o ran gwneud cais am y Cynllun.

4.12 Er ein bod yn cydnabod nad yw'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn fater wedi'i ddatganoli, credwn y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol wneud mwy i sicrhau bod y Cynllun yn cynnig dewisiadau gwirioneddol i bobl ifanc anabl yng Nghymru.

Argymhelliad 32: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu taliadau uniongyrchol. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i gynyddu cyhoeddusrwydd am daliadau uniongyrchol a'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc anabl drwy'r broses ymgeisio.

Argymhelliad 33: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r dulliau presennol ar gyfer asesu cymhwysedd ar gyfer taliadau uniongyrchol gyda'r bwriad o sicrhau bod pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael mynediad cyfartal.

Perthnasau

4.13 Drwy gydol yr adolygiad, nododd y grwp cyfeirio agweddau teulu a gofalwyr fel rhwystr iddynt gael annibyniaeth. Er bod y grwp yn cydnabod bod eu teulu a'u gofalwyr yn ystyried eu buddiannau gorau yn bennaf, y ddwy neges a gafodd eu hailadrodd mewn llawer o sesiynau oedd:

'Maent yn dweud wrthym beth i'w wneud bob amser'

ac

'Maent yn credu eu bod yn gwybod beth sydd orau i ni - nid ydynt yn gwrando ar yr hyn rydym ei eisiau.'

4.14 Mae'r rhwystr hwn i annibyniaeth yn codi mewn llawer o ardaloedd. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brifysgol Birmingham am brofiadau disgyblion a myfyrwyr anabl a'u teuluoedd[37]. Amlygodd eu hymchwil y gwahaniaeth mewn ymatebion gan rieni pobl ifanc anabl a chan y bobl ifanc eu hunain.

[37] Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 14 Mehefin 2006 EOC(2) - 05-06(p2)

4.15 Yn ogystal â bod yn fater pwysig o ran byw yn annibynnol, credwn fod y mater hwn yn sylfaenol i'r broblem o ran sut rydym yn gwrando ar sylwadau pobl ifanc anabl wrth lunio a gweithredu polisïau sy'n effeithio ar eu bywydau. Credwn y dylid defnyddio'r ffordd rydym wedi cynnal yr arolwg hwn - cymryd tystiolaeth uniongyrchol gan y bobl ifanc am y materion sy'n bwysig yn eu barn hwy - fel enghraifft o arfer da yn y maes hwn.

4.16 Perthnasau pwysig eraill i bobl ifanc anabl yw'r rhai gyda'u gweithwyr gofal a chymorth. Creodd y grwp ddau fodel - Cruella ac Earl i esbonio sut maent yn teimlo am y gwahanol fathau o bobl maent wedi gweithio gyda hwy.

Disgrifwyd Earl - eu gweithiwr delfrydol fel:

- Cefnogol

- Gadael i mi wneud y pethau rwyf eisiau eu gwneud

- Rhywun y gallaf siarad ag ef

- Rhywun y gallaf ymddiried ynddo

- Hiwmor da

- Gallu cyfathrebu ag ef

- Rydym yn parchu ein gilydd
  Mae'n helpu digon ond ddim gormod

- Mae'n siarad â chi yn hytrach na dweud wrthych beth i'w wneud

‘Mae cydweithio gyda phobl sydd â sgiliau Earl, pwy bynnag ydynt a beth bynnag yw eu swydd neu rôl, fel y dywedasom yn gynharach, yn ein helpu i fod yn fwy annibynnol.’ Tim Rusco, Barnardo’s Cymru

Fodd bynnag, disgrifiwyd Cruella fel:

- Anghydweithredol

- Dim ond yn ei wneud am yr arian
- Bwlio, gweiddi, anghwrtais

- Rhoi geiriau yn eich ceg

- Dim parch tuag atoch

- Bod yn nawddoglyd gyda chi

- Yn fy atal rhag gwneud yr hyn rwyf eisiau ei wneud

- Agwedd wael

4.17 Cytunodd y grwp eu bod wedi cwrdd â mwy o Earls na Cruellas ond roedd y Pwyllgor yn bryderus bod Cruellas yn bodoli ac roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Grwp wedi delio ag un ar ryw adeg yn eu bywydau. Cadarnhaodd y grwp awgrymiadau'r Pwyllgor ei fod yn bwysig bod adolygiadau o berfformiad a hyfforddiant ar waith mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod gweithwyr cymorth a gofalwyr o ansawdd uchel.

4.18 Rhywbeth a achosai fwy o bryder yw'r farn a fynegodd rhai o aelodau'r Grwp na fyddent yn gwybod sut i gwyno am weithiwr cymdeithasol neu ofalwr a phe byddent yn gwneud, efallai y câi eu barn ei hanwybyddu[38].

4.19 Credwn y dylai pob person ifanc anabl wybod sut i gwyno am eu triniaeth gan ofalwyr a gweithwyr cymorth os yn briodol a dylent fod yn hyderus yn gwneud hynny.

Argymhelliad 34: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a gwirfoddol sy'n trefnu gofalwyr ar gyfer pobl ifanc anabl ddangos sut y gall pobl ifanc anabl gymryd rhan yn y broses o benderfynu pwy fydd yn gweithio gyda hwy a sut y maent yn gwneud hyn ar hyn o bryd.

Argymhelliad 35: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod dulliau ar waith ar gyfer pob darparwr gwasanaethau gofal chymorth i bobl ifanc er mwyn adolygu perfformiad eu staff a dylai'r

[38] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 14 Mehefin 2006, paragraff 285

adolygiadau hynny gynnwys barn y bobl ifanc maent yn gweithio gyda hwy.

Argymhelliad 36: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob adran gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl gael gweithdrefn gwyno glir, dealladwy a gaiff ei hysbysebu'n eang a'i bod yn hygyrch i bob darparwr gwasanaeth.

Argymhelliad 37: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu system eiriolaeth ar gyfer pob person ifanc anabl, heb ystyried ei nam, sy'n annibynnol ar ddarparwyr gwasanaethau, sy'n hygyrch i bawb ac sy'n gynaliadwy.

4.20 Cawsom dystiolaeth gan nifer o sefydliadau a chan y bobl ifanc eu hunain yn nodi bod llawer o bobl ifanc anabl yn poeni am berthnasau personol a pherthnasau rhywiol. Mae llawer o bobl ifanc yn poeni am berthnasau personol a pherthnasau rhywiol ac roedd y Grwp Cyfeirio yn teimlo y dylent allu cael yr un math o berthnasau a chael gafael ar yr un math o help a chyngor.

4.21 Roedd y Grwp yn teimlo yr ystyrir yn aml nad oedd yn 'briodol' i bobl ifanc anabl cael perthnasau gan eu teuluoedd a'u gofalwyr.

'Nid oes gwahaniaeth os oes gennych anabledd. Os ydych am gael perthynas dylech allu cael un. Nid oes gennych hawl i'n hatal, ond mae gwybodaeth bod nyrsys, canolfannau iechyd ac athrawon yn trin pobl ifanc eraill yn wahanol i ni. Yn aml, maent yn agweddau negyddol ac rwy'n poeni na fyddaf yn cael fy ystyried o ddifrif. Mae pobl yn disgwyl i ni gael perthynas gyda pherson ifanc anabl arall. Mae pobl eraill yn gwneud fy newisiadau. Mae pobl anabl yn cael eu hystyried olaf, fel y teganau ar waelod y blwch teganau.

Mae perthnasau yn ymwneud â ffydd, cyfeillgarwch, ffyddlondeb, natur agored, cariad, gofal, cymorth, parch, dealltwriaeth a gonestrwydd. Mae perthnasau yn rhan o fywyd ac mae bywyd yn ddigon anodd heb rwystrau. Mae angen addysg am ryw a pherthnasau arnom yn gynnar, a chymorth a help gan bobl fel rhieni, athrawon, clybiau ieuenctid, ffrindiau, gofalwyr ac ati, a digon o bobl i ddarparu cymorth a gwybodaeth sy'n ddealladwy. Rydym yr un fath â phawb arall.
Dylem gael yr agwedd gywir gan rieni, athrawon, ffrindiau a

gofalwyr. Ni ddylai fod gwahaniaeth lle rydych yn byw.’

Jessica Roberts, aelod o'r Grwp Cyfeirio.

4.22 Clywsom gan y Gymdeithas Cynllunio Teulu eu bod yn cynnal cyrsiau a phrosiectau penodol ar gyfer pobl ifanc anabl i'w haddysgu am berthnasau a phrofiadau rhywiol. Cydnabuwyd bod rhwystrau yn cael eu gosod yn aml gan deuluoedd, yn enwedig rhieni pobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae'r Gymdeithas Cynllunio Teulu yn gweithio gyda theuluoedd i esbonio anghenion pobl ifanc a datblygu gwybodaeth ac adnoddau priodol ar eu cyfer.

PENNOD 5

MATERION ERAILL

Y Model Cymdeithasol o Anabledd

5.1 Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gael cynllun cydraddoldeb i bobl anabl, ac mae'r Pwyllgor hefyd yn gweld hwn fel sbardun i symud yn agosach at y model cymdeithasol o anabledd. Bydd y Pwyllgor yn parhau i edrych ar ddatblygiadau yn y maes hwn.

Argymhelliad 38: Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i sicrhau bod y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei integreiddio'n llawn i'w swyddogaethau, hyfforddiant perthnasol a phriodol i staff a'r ffordd y maent yn cynnal busnes, yn cynnwys trwy weithredu eu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn brydlon ac yn effeithiol.

Llety hygyrch

5.2 Nodwyd eisoes bod y Grwp Cyfeirio wedi ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau y tu allant i Gaerdydd lle y gallent gyfarfod. Pwysleisiwyd hyn gan dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor gan Vin West o Grwp Gweithredu Arfon a ddywedodd

> 'Dylid rhoi mwy o bwysau ar westai a lleoliadau cynadledda i ddod yn fwy hygyrch fel y gall pobl ifanc drefnu a chyfarfod. Mae'n gywilydd nad oes lleoliadau gwbl hygyrch yn y gogledd, a dim ond ychydig sydd yn agos at fod yn hygyrch. Mae'r Cynulliad, yn ei bwyllgorau rhanbarth, mewn sefyllfa gref iawn i weithredu'r pwysau hwnnw er mwyn newid.'

> 'Mae gennym ysgolion, prifysgolion ac adeiladau cyhoeddus sydd wedi cael y cyfnod rhwng 1995 a 2004 i ddod yn hygyrch, ond ar y gorau, dim ond newydd ddechrau ar y broses y mae'r sefydliadau hynny. Roedd angen i rai myfyrwyr yng Nghaernarfon yn ddiweddar fynd i amgueddfa fel rhan o'u cwrs - roedd yn rhaid i mi fenthyg un o rampiau fy merch i'r amgueddfa er mwyn iddynt gael mynd mewn. Mae gennym bobl sy'n cael eu gadael heb ffordd o gyfathrebu, oherwydd bod cyllidebau cymhorthion cyfathrebu yn rhy fach i ddiwallu eu hanghenion neu i dalu am y costau datblygu. Ni wn a allwch hyd yn oed ddychmygu'r teimlad o rwystredigaeth a

dicter y gall hyn beri.'[39]

5.3 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, nododd Gwasanaeth Dysgu Oedolion ac Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr fod dysgu i oedolion yn cael ei gynnal mewn adeiladau wedi'u rhentu felly nid oedd rheolaeth dros fynediad i bobl anabl ac nid oedd pob lleoliad yn hygyrch, gyda rhai ysgolion yn sicrhau nad oedd offer TG ar y llawr gwaelod.

5.4 Rhoddodd Scope Cymru dystiolaeth am ei ymgyrch 'Within Reach' i gynyddu hygyrchedd i fyfyrwyr sydd â nam ar y synhwyrau neu nam corfforol a faint o arian sy'n cael ei wario yn Lloegr drwy'r Fenter Mynediad Ysgolion.

Argymhelliad 39: Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio hygyrchedd pob gwesty a chyfleusterau cynadledda ledled Cymru gyda'r bwriad o gynhyrchu rhestr gyhoeddus o leoliadau hygyrch a fydd yn annog pob lleoliad i gael safonau hygyrchedd gwell.

Toiledau gyda Chyfleusterau Newid ar gyfer Pobl Anabl

5.5 Nodwyd yr anawsterau a wynebir gan bobl ifanc anabl wrth ddefnyddio gwasanaethau drwy gorff yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r enghraifft amlycaf y daeth y Pwyllgor ar ei thraws yn ystod ei adolygiad, yw nad yw rhai pobl anabl yn gallu defnyddio'r cyfleusterau mwyaf sylfaenol, fel toiledau cyhoeddus.

5.6 Er bod toiledau anabl safonol yn diwallu anghenion llawer o bobl anabl, mae angen toiledau â mainc newid, teclyn codi a digon o le ar gyfer dau ofalwr a chadair olwyn ar gyfer miloedd o unigolion ag anableddau dysgu lluosog ac anableddau dysgu dwys. Ar hyn o bryd, dim ond ychydig o doiledau o'r math sydd ar gael yn y DU. Mae diffyg toiledau hygyrch, priodol yn atal unigolion ag anableddau dysgu lluosog ac anableddau dysgu dwys rhag defnyddio'r gwasanaethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, eglurodd Wayne Crocker o Mencap Cymru:

[39] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 26 Mai 2005

‘Mae’n rhaid i rieni a gofalwyr newid plant ac oedolion ag anableddau dysgu lluosog ac anableddau dysgu dwys ar lawr toiledau, sy’n fudr, er mor lân y maent yn ymddangos i’r llygad.’

Aeth ati i awgrymu bod diffyg toiledau â chyfleusterau newid:

‘...yn tresmasu ar hawliau dynol ac urddas pobl ag anableddau dysgu lluosog ac anableddau dysgu dwys.[40]’

Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r defnydd o doiledau anabl yn Senedd y Cynulliad Cenedlaethol fel enghraifft i gyrff a sefydliadau cyhoeddus eraill. Rhoddodd gefnogaeth lawn i ymgyrch cenedlaethol y Consortiwm ar gyfer toiledau â chyfleusterau newid a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2006.

Argymhelliad 40: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog y rheini sy’n ceisio cael caniatâd i adeiladu adeiladau cyhoeddus a masnachol newydd, drwy’r system gynllunio, gynnwys toiledau â chyfleusterau newid yn eu cynlluniau gyda’r bwriad o sefydlu, yn y lle cyntaf, un cyfleuster ym mhob ardal awdurdod lleol.

[40] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, 14 Mehefin 2006, paragraff 241 ymlaen

Atodiad A

Crynodeb o'r argymhellion

O ganlyniad i natur yr adolygiad, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn torri ar draws meysydd cyfrifoldeb y Cabinet. Felly, mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael ymateb cychwynnol gan y Trefnydd a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant, sydd wedi ymrwymo i godi materion cydraddoldeb gyda'i chyd-Weinidogion yn y Cabinet yn rheolaidd. Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd yn rheolaidd wrth weithredu unrhyw rai o'i argymhellion a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyma restr lawn o'r holl argymhellion sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniwyd a safbwyntiau'r Grwp Cyfeirio:

Yn gyffredinol

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu polisi strategol sy'n cynnwys yr holl wasanaethau sydd eu hangen ar bobl ifanc i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd llawn. Dylid cynnwys pobl ifanc yn y broses o ddod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau hyn.

Argymhelliad 2: Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau i holl is-adrannau polisi, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ar gynnwys pobl ifanc anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn y broses o lunio polisïau. Dylai'r canllawiau nodi arfer da (e.e. gwaith y Grwp Cyfeirio Pobl Ifanc Anabl) a phwysleisio'r angen i wrando ar farn pobl ifanc anabl yn eu geiriau hwy eu hunain yn hytrach na chanolbwyntio ar farn eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i holl gyrff y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau, un-i-un, grwpiau, prosiectau a mentrau i bobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl i'r holl bobl ifanc.

Dylai'r canllawiau gynnwys:

Sicrhau bod gwybodaeth am brosiectau ar gael yn hawdd;

Creu amgylchedd y mae pobl ifanc yn teimlo'n gysurus ag ef;

Sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc eu deall yn llawn;

Gwneud cynnydd tuag at brosiectau mor ddifyr ac mor heriol â phosibl i bob person ifanc, gan asesu a lleihau unrhyw risgiau cysylltiedig.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu adolygiad o hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl a chyflogwyr.

Dylai canlyniadau'r adolygiad helpu gyda'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, sy'n cynnwys darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth ar berthnasau, rhywioldeb ac iechyd rhyw, yn ogystal â chyngor addysgol a chyngor ar yrfaoedd.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl mewn awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu gan bobl â hyfforddiant a phrofiad priodol a digonol o'r materion sy'n wynebu pobl anabl.

Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu polisi fframwaith cyfannol, cydgysylltiedig ar gyfer darparu cymorth a gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cyn-16 ac ôl-16 (hyd at o leiaf 25 oed).

Dylai'r polisi fframwaith gwmpasu adnabyddiaeth gynnar, asesu a darpariaeth gwasanaethau i nodi'n glir y rolau a'r protocolau aml-asiantaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu gwasanaethau.

Argymhelliad 7: Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r systemau asesu ac ariannu ar gyfer gwasanaethau cymorth i helpu pobl ifanc anabl i symud o addysg a hyfforddiant i gyflogaeth. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddarpariaeth dysgu yn seiliedig ar waith, a sicrhau ei fod yn pwysleisio canlyniadau cyfartal o ran swyddi a chynnydd, yn hytrach nag ar gymwysterau a enillwyd.

Argymhelliad 8: Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y darperir yr holl gyngor a chymorth ar addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd, ar lafar neu'n ysgrifenedig, drwy gyfrwng y Gymraeg, ieithoedd lleiafrifoedd ethnig a fformatau hygyrch. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod pob gwasanaeth gwybodaeth a ariennir gan y Cynulliad ar gael ar-lein.

Argymhelliad 9: Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru systemau ar waith i sicrhau bod pob person ifanc, heb ystyried unrhyw nam, yn cael cymorth priodol drwy'r broses bontio.

Argymhelliad 10: Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod cymorth un i un ar gael i bobl ifanc anabl fel rhan o wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Argymhelliad 11: Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu effaith darpariaeth gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, drwy fesur pa mor hygyrch yw gwasanaethau i bobl ifanc anabl, a yw'r gwasanaethau yn diwallu anghenion unigol a faint o bobl ifanc anabl 16-25 oed sydd mewn cyflogaeth neu'r math o gyflogaeth o'u dewis.

Argymhelliad 12: Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ar ganlyniadau'r asesiad ar wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gynyddu eu heffeithiolrwydd.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr gwasanaeth adolygu gwasanaethau cymorth, cyngor a gwybodaeth i bobl ifanc ar berthnasau, rhywioldeb ac iechyd rhyw yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, drwy ymgynghori'n llawn â phobl ifanc anabl eu hunain.

Dylid darparu'r canllaw arfer da canlyniadol mewn ffyrdd y gall pob plentyn a pherson anabl â nam eu deall.

Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod telerau ac amodau pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl mewn ysgolion, yn cynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, yn caniatáu iddynt gael cyfleoedd hyfforddiant digonol i'w galluogi i roi cymorth llawn i bobl ifanc anabl.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mesurau ychwanegol ar waith, rhai ymarferol ac ariannol, fel cymhellion i gyflogwyr ac arian ar gyfer gweithwyr cymorth, er mwyn sicrhau y cynigir lleoliadau profiad gwaith ystyrlon i bobl ifanc anabl.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i nodi ffyrdd y gellir cynnwys sefydliadau gwirfoddol yn fwy wrth gyflwyno mentrau wedi'u hanelu at helpu pobl ifanc anabl i gael gwaith sefydlog.

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud sylwadau i'w chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y canlynol:

Yr angen i oresgyn anghymhellion i bobl anabl weithio o fewn y system fudd-daliadau bresennol;

Yr angen i gynnwys digon o hyblygrwydd yn yr Asesiad Gallu Personol i ystyried cyflyrau meddygol cyfnewidiol;

Yr angen i sicrhau bod yr Asesiad Gallu Personol ar gael drwy gyfrwng sy'n briodol i bob unigolyn.

Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau weithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu ffyrdd y gellir defnyddio cyllidebau a'r system fudd-daliadau yn greadigol i sicrhau bod Adrannau Whitehall yn cefnogi polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ei strategaeth i wella darpariaeth gwasanaethau Iaith Arwyddion Prydain, yn cynnwys dehonglwyr, yng Nghymru yn cyflawni ei hamcanion drwy ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat ac Undebau Llafur i roi strwythurau ar waith i annog pobl i gyflogi pobl anabl.

Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y cynhelir yr opsiynau i bobl ifanc o ran cyflogaeth dan gymorth.

Argymhelliad 22: Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag Anabledd Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a sefydliadau cyflogwyr eraill i ddatblygu ffyrdd y gellir annog pobl ifanc anabl i ystyried hunangyflogaeth fel opsiwn ar gyfer llwybr gyrfa yn y dyfodol.

Trafnidiaeth

Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru monitro a gweithredu'r cod ymarfer statudol ar drafnidiaeth ledled Cymru.

Argymhelliad 24: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda darparwyr trafnidiaeth i sicrhau bod gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth i bobl anabl ar gael mewn fformatau hygyrch.

Argymhelliad 25: Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer y broses dendro sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig tendrau neu gontractau dim ond i weithredwyr sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant a gymeradwywyd, sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd.

Argymhelliad 26: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gynhyrchu canllawiau i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer gyrwyr a gwarchodwyr ar anghenion a hawliau pobl anabl sy'n defnyddio'r system drafnidiaeth yn briodol ac yn cael ei roi yn rheolaidd. Dylid ei ddatblygu ar y cyd â phlant a phobl ifanc a dylid monitro ei effeithiau.

Argymhelliad 27: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hyfforddiant cymorth ar gyfer pobl ifanc anabl ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gael ym mhob rhan o Gymru.

Argymhelliad 28: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda darparwyr trafnidiaeth a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod digon o gymorth a gwybodaeth ar gael i rieni a gofalwyr pobl ifanc anabl i gael yr hyder i ganiatáu i'w pobl ifanc ddefnyddio'r system drafnidiaeth.

Byw yn Annibynnol

Argymhelliad 29: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal asesiadau anghenion tai rheolaidd ymhlith pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o namau. Dylid defnyddio'r rhain i lywio polisi tai gyda'r bwriad o sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc anabl eu diwallu.

Argymhelliad 30: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithio gyda'r sector cyhoeddus, preifat, annibynnol a gwirfoddol i nodi a chynyddu faint o dai rhent addas sydd ar gael i bobl ifanc anabl.

Argymhelliad 31: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar anghenion tai pobl ifanc anabl yn cynnwys canllawiau ar y cymorth sydd ei angen, addasiadau ac arian sydd ar gael am unrhyw waith sydd ei angen.

Argymhelliad 32: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu taliadau uniongyrchol. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i gynyddu cyhoeddusrwydd am daliadau uniongyrchol a'r cymorth a ddarperir i bobl ifanc anabl drwy'r broses ymgeisio.

Argymhelliad 33: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r dulliau presennol ar gyfer asesu cymhwysedd ar gyfer taliadau uniongyrchol gyda'r bwriad o sicrhau bod pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael mynediad cyfartal.

Argymhelliad 34: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a gwirfoddol sy'n trefnu gofalwyr ar gyfer pobl ifanc anabl ddangos sut y gall pobl ifanc anabl gymryd rhan yn y broses o benderfynu pwy fydd yn gweithio gyda hwy a sut y maent yn gwneud hyn ar hyn o bryd.

Argymhelliad 35: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod dulliau ar waith ar gyfer pob darparwr gwasanaethau gofal chymorth i bobl ifanc er mwyn adolygu perfformiad eu staff a dylai'r adolygiadau hynny gynnwys barn y bobl ifanc maent yn gweithio gyda hwy.

Argymhelliad 36: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob adran gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl gael gweithdrefn gwyno glir, dealladwy a gaiff ei hysbysebu'n eang a'i bod yn hygyrch i bob darparwr gwasanaeth.

Argymhelliad 37: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu system eiriolaeth ar gyfer pob person ifanc anabl, heb ystyried ei nam, sy'n annibynnol ar ddarparwyr gwasanaethau, sy'n hygyrch i bawb ac sy'n gynaliadwy.

Argymhelliad 38: Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i sicrhau bod y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei integreiddio'n llawn i'w swyddogaethau, hyfforddiant perthnasol a phriodol i staff a'r ffordd y maent yn cynnal busnes, yn cynnwys trwy weithredu eu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn brydlon ac yn effeithiol.

Argymhelliad 39: Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio hygyrchedd pob gwesty a chyfleusterau cynadledda ledled Cymru gyda'r bwriad o gynhyrchu rhestr gyhoeddus o leoliadau hygyrch a fydd yn annog pob lleoliad i gael safonau hygyrchedd gwell.

Argymhelliad 40: Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog y rheini sy'n ceisio cael caniatâd i adeiladu adeiladau cyhoeddus a masnachol newydd, drwy'r system gynllunio, gynnwys toiledau â chyfleusterau newid yn eu cynlluniau gyda'r bwriad o sefydlu, yn y lle cyntaf, un cyfleuster ym mhob ardal awdurdod lleol.

Atodiad B

Cylch gorchwyl

Diben yr adolygiad yw caniatáu i'r Pwyllgor archwilio, mewn ffordd briodol, y trefniadau sydd gan y Cynulliad i hyrwyddo'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb wrth fynd ati i arfer ei bwerau.

At y dibenion hynny, bydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn adolygu'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl yng Nghymru. Yn ystod yr adolygiad, bwriedir mynd ati hefyd i ystyried y materion a godwyd yn ystod y Gyngres Ryngwladol gyntaf ar gyfer Pobl Ifanc Anabl.

Mae cwmpas posibl yr adolygiad yn enfawr, felly, er mwyn ei reoli'n briodol, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y problemau mwyaf arwyddocaol neu sylfaenol ac ar y problemau y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rhywbeth yn eu cylch.

Bydd tair thema allweddol i'r adolygiad:

- Hyrwyddo annibyniaeth pobl ifanc, a'u cynorthwyo i reoli'u bywydau eu hunain
- Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n ymateb i'w anghenion
- Darparu cymorth a gwasanaethau sy'n briodol ar gyfer y grwp oedran o dan sylw

O fewn y themâu cyffredinol hyn, bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r wyth maes a ganlyn:

- addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- hamdden
- tai
- trafnidiaeth
- cyfarpar
- camu o fyd plentyn i fyd oedolyn
- cael gafael ar wybodaeth
- tlodi

Materion penodol i'w hystyried

- Slogan y Gyngres Ryngwladol 'Hawliau ar Waith' ar gyfer pobl ifanc anabl oedd 'dim byd amdanom ni hebom ni'. Bydd y Pwyllgor, felly, yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael chwarae rhan uniongyrchol yn ei adolygiad trwy sefydlu grwp cyfeirio o bobl ifanc anabl
- Er mwyn osgoi dyblygu'r gwaith y mae'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ei wneud yn ei adolygiad o'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig, bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar faterion ehangach sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, h.y. cyfle i fanteisio ar yr holl brofiadau a gynigir yn yr ysgol; paratoi ar gyfer cyflogaeth – cyfle i fanteisio ar brofiad gwaith, cyngor ar yrfaoedd a chyngor ar hawliau; yr hawl i'r un ystod o ddewisiadau â phobl ifanc eraill
- Eir ati hefyd yn ystod yr adolygiad i ystyried a yw polisïau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wasanaethau ar gyfer pobl ifanc anabl yn diwallu'u hanghenion o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; hamdden; tai; trafnidiaeth; cyfarpar; cael gafael ar wybodaeth; camu o fyd plentyn i fyd oedolyn; a thlodi.
- Yn ystod yr adolygiad, bwriedir mynd ati i ystyried a yw'r gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn ardaloedd gwledig yn ddigonol
- Anelir, yn ystod yr adolygiad, at nodi'r arferion gorau o ran darparu gwasanaethau, ac yna ystyried a yw'r arferion gorau hyn yn cael eu rhannu'n briodol ledled Cymru.

Casglu Tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad

Rhoi cyhoeddusrwydd i'r adolygiad a gwahoddiadau uniongyrchol ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig

- Bydd y Pwyllgor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w adolygiad drwy'r cyfryngau ac ar ei wefan.
- Gwahoddir cyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau perthnasol. Darperir rhestr i'r Pwyllgor o ymgyngoreion posibl i'w hadolygu cyn dechrau ymgynghoriad ar ddiwedd tymor yr haf 2004, gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad yn ystor toriad yr haf ac ystyried crynodeb o ymatebion yn ystod tymor yr hydref.

- Yna gellir dadansoddi'r dystiolaeth i gyd-ddigwydd â phenodi hwylusydd proffesiynol a chasglu grwp cyfeirio ynghyd
- Bydd y cyflwyniadau a dderbynnir yn helpu i nodi'r meysydd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt o ran amser ac ymdrech, a llywio'r broses o ddatblygu rhaglen waith fanwl.

Seminarau

- Cynhelir o leiaf un digwyddiad lle ceir seminarau ar gyfer darparwyr gwasanaethau. Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â darparwyr gwasanaethau wrth ystyried y lleoliad mwyaf priodol, ac yn sicrhau na chaiff darparwyr gwasanaethau a leolir y tu allan i Gaerdydd eu heithrio rhag cyfrannu'n llawn i'r adolygiad.

Sesiynau Tystiolaeth/Digwyddiadau ac Ymweliadau

Gall y Pwyllgor glywed tystiolaeth drwy

- wahodd sefydliadau i gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor ar gyfer sesiynau tystiolaeth sy'n canolbwyntio ar bynciau penodol;
- cynnal cyfarfodydd anffurfiol y Pwyllgor neu ymweliadau mewn lleoliadau perthnasol ledled Cymru sy'n fwy hygyrch i dystion pwysig – er mwyn trafod materion â phobl ifanc anabl, eu rhieni, eu perthnasau a'u gweithwyr cymorth, ac aelodau o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl;
- defnyddio system o rapporteurs i alluogi Aelodau i ymweld â phobl ifanc anabl a'r bobl sy'n darparu gwasanaethau iddynt ledled Cymru. Caiff pob ymweliad rapporteur ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor;
- gwahodd Pwyllgorau Rhanbarth i gasglu tystiolaeth am gwestiynau penodol ar ran y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Profiad yn rhywle arall

- Bydd y Pwyllgor yn ystyried gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl yng Nghymru ar lefel Llywodraeth y DU ac efallai y bydd yn gwahodd y Gweinidog i drosglwyddo unrhyw argymhellion i adrannau Whitehall fel y bo'n briodol. Bydd y Pwyllgor yn cysylltu â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ynghylch materion sy'n berthnasol i'w gylch gwaith fel y bo'n briodol
- Ystyrir dimensiwn rhyngwladol y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ifanc anabl, yn cynnwys drwy adolygiad bwrdd gwaith a thrwy geisio barn y grwp cyfeirio.

Hwylusydd Proffesiynol a Grwp Cyfeirio

- Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu casglu ynghyd grwp cyfeirio o bobl ifanc anabl ar gyfer hyd yr adolygiad.
- Bydd y grwp yn chwilio am aelodau o bob rhan o Gymru, yn cynnwys ardaloedd gwledig, a bydd yn cynnwys rhai pobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â'r Gyngres, ond hefyd pobl ifanc eraill. Ystyrir yr holl feysydd cydraddoldeb yn llawn wrth gynnal yr adolygiad, a'r nod fydd sicrhau bod y grwp cyfeirio mor gynrychioliadol â phosibl. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain a dulliau eraill o gyfathrebu.
- O gofio hyd yr adolygiad, cydnabyddir y gall aelodau'r grwp cyfeirio newid dros y cyfnod hwn.
- Caiff hwylusydd proffesiynol ei benodi i gynorthwyo'r Pwyllgor â'r gwaith o ffurfio'r grwp cyfeirio, trefnu cyfarfodydd a sicrhau y caiff anghenion cyfathrebu ac anghenion eraill y grwp cyfeirio eu diwallu. Bydd yr hwylusydd yn gweithio'n agos â Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau, a bydd Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol ag aelodau'r grwp cyfeirio.
- Bydd y Grwp Cyfeirio'n cynghori'r Pwyllgor ynghylch:
- Y meysydd y dylai ganolbwyntio arnynt.
- Beth yw barn pobl ifanc anabl ynghylch y materion y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried o ran y gwasanaethau a ddarperir a pholisïau.
- Unrhyw argymhellion sy'n codi o'r adolygiad.
- Bydd y grwp yn cyfarfod cyn pob cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor i drafod y materion a gaiff eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor.
- Bydd un neu ddau aelod o'r grwp cyfeirio yn cymryd rhan ym mhob cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor lle y cesglir tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Hwy fydd yn cyflwyno safbwynt y grwp cyfeirio i'r Pwyllgor ar y mater dan sylw ac fe'u gwahoddir i ofyn cwestiynau i'r cyflwynwyr.

Cwmpas yr Adolygiad

Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Yn ôl gwaith ymchwil, mae pobl ifanc anabl yn teimlo bod eraill yn gwahaniaethu yn eu herbyn yn yr ysgol, a'u bod yn cael eu digalonni yno ac weithiau eu bwlio.

- Gall diffyg cyfleoedd eu rhwystro rhag manteisio ar addysg bellach ac addysg uwch, ac yn y pen draw rhag cael gwaith.
- Gan nad yw athrawon ac eraill yn disgwyl llawer gan bobl ifanc anabl, mae hyn yn effeithio ar eu hunan-barch ac yn aml, yn golygu eu bod yn cael llai o gyfleoedd yn ystod eu bywydau.

Materion i'w nodi

Mae'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig ond mae'n bwysig nad ydym yn dyblygu'r gwaith hwn. Felly, yn ystod yr adolygiad hwn, byddwn yn canolbwyntio ar faterion ehangach mewn ysgolion ac ym maes addysg uwch, er enghraifft:

- Cyfleoedd i fanteisio ar yr holl brofiadau a gynigir yn yr ysgol - dim ond cyfeirio at y profiad addysgol y mae datganiadau
- Profiadau pobl ifanc anabl o ran y cyfleoedd a gânt i fanteisio ar addysg uwch a hyfforddiant
- Paratoi pobl ifanc anabl ar gyfer cyflogaeth - cyfle i fanteisio ar wahanol fathau o brofiad gwaith a chyngor o ansawdd dda, fel cyngor ar yrfaoedd a chyngor ar eu hawliau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Yr hawl i'r un ystod o ddewisiadau â phobl ifanc eraill.

Hamdden
Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Mae ffactorau sylweddol yn rhwystro pobl ifanc anabl rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Yn eu plith y mae bylchau o ran darpariaeth addas, diffyg dewis o ran y gweithgareddau sydd ar gael, anawsterau wrth fynd ar ymweliadau ac ar wyliau, llai ohonynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon
- Diben gofal seibiant yw rhoi seibiant i rieni, ond mae hyn yn golygu nad rhoi mwynhad i'r plentyn sy'n cael y prif sylw yn ystod y cyfnodau hyn. (Mae hon yn broblem benodol os nad oes gan yr awdurdod lleol ond ychydig o ddewisiadau).

Tai
Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Mae cael symud i mewn i'ch cartref eich hun yn un o'r camau allweddol os ydych am fod yn annibynnol
- Mae gan bobl ifanc anabl amrywiaeth eang o anghenion yn hyn o beth, a gall fod yn anodd cynnig dewis go iawn iddynt mewn rhannau gwledig o Gymru
- Mae yna ddiffyg tai addas ar gyfer pob grwp
- Gall fod yn anodd i bobl ifanc anabl ddod o hyd i dai a ddarperir gan yr awdurdodau lleol drwy'r system bwyntiau, ac yn aml, nid yw tai preifat yn addas ar eu cyfer
- Gan mai prin yw'r ddarpariaeth addas ym maes tai cymdeithasol, gall hyn olygu bod pobl ifanc anabl yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar y cyrion
- Mae cost tai a phecynnau gofal yn rhwystr iddynt yn hyn o beth.

Trafnidiaeth
Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Mae hwn yn fater o bwys aruthrol gan fod trafnidiaeth yn rhoi annibyniaeth i bobl
- Os ceir problemau wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, neu os nad yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyblyg, gall hyn olygu bod pobl yn cael anawsterau wrth fanteisio ar addysg, wrth gael gwaith ac yn eu bywydau cymdeithasol.

Cyfarpar
Y rheswm dros gynnwys y maes hwn:

- Gwelir oedi yn aml wrth ddarparu cyfarpar addas (fel cadeiriau olwyn) ar gyfer pobl ifanc anabl.

Cael Gafael ar Wybodaeth
Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Mae pobl ifanc anabl a'u cynorthwywyr, ynghyd â gweithwyr proffesiynol yn y maes, yn wynebu problemau wrth geisio cael gafael ar wybodaeth. Gall hyn effeithio ar y penderfyniadau y maent yn eu gwneud. Mae'n bosibl y bydd pobl ifanc anabl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu hyd yn oed mwy o anfanteision yn hyn o beth

- Yn aml, mae pobl yn rhoi'r wybodaeth y maent yn meddwl sydd ei hangen arnynt i bobl ifanc anabl yn hytrach na'r wybodaeth y maent am ei chael
- Mae'n bosibl na fydd y wybodaeth ar ffurf hygyrch.

Camu o fyd plentyn i fyd oedolyn
Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Yn aml, nid yw'r gwasanaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cydgysylltu'u gwaith ac yn cynllunio ar gyfer y cyfnod hwn
- Mae darparu gofal drwy wasanaethau awdurdodau lleol yn lle drwy rieni, sy'n rhoi'r gofal hwnnw'n ddi-dâl, yn golygu y bydd y bobl anabl yn cael llai o incwm.

Tlodi
Y rhesymau dros gynnwys y maes hwn:

- Mae rhieni plant anabl yn debygol o fod yn dlotach na rhieni plant nad ydynt yn anabl, er enghraifft, am fod dyletswyddau gofal yn golygu eu bod yn llawer llai tebygol o fod mewn gwaith amser llawn
- Bydd tlodi ymhlith pobl ifanc yn cael ei ystyried, yn ogystal â thlodi ymhlith plant a theuluoedd, gan fod hyn yn effeithio ar allu pobl ifanc i fforddio i fyw'n annibynnol.

Atodiad C

Y Pwyllgor a'i Grŵp Cyfeirio - Adolygiad

Gwnaeth aelodau'r Pwyllgor gyfarfod ag aelodau'r Grŵp Cyfeirio i adolygu holl broses y fenter ar y cyd.
Gofynnwyd i aelodau'r Grŵp:

- Beth yw'r agweddau cadarnhaol ar fod yn aelod o'r grŵp?
- Beth yw'r agweddau llai cadarnhaol?
- Beth allai wella'r profiad?
- Pwy ddylai wneud hyn?

Beth oedd barn y Bobl Ifanc?

Roedd cytundeb barn cyffredinol yn y ddau grŵp. Rhestrir eu casgliadau isod:

Beth oedd yr agweddau cadarnhaol:

- Yn falch o fod yn rhan o'r grŵp
- Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu gwasanaethau sy'n effeithio arnynt hwy
- Gweithio gyda'i gilydd a meithrin cysylltiadau newydd
- Mae'n darparu fforwm i sicrhau y cewch eich clywed
- Dysgu o brofiad eraill
- Mae'n rhoi'r hyder i unigolion fynegi barn
- Roedd cymysgu ag Aelodau'r Cynulliad yn gwneud iddynt deimlo'n bwysig
- Mae'n dda cael teithio

Beth oedd yr agweddau llai cadarnhaol:

- Roedd pobl - cyflwynwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn defnyddio iaith nad oedd y bobl ifanc bob amser yn ei deall -"geiriau anodd"
- Roedd pobl yn siarad yn rhy gyflym
- Weithiau, nid oeddent yn cael y cyfle i godi pwyntiau
- Roedd angen mwy o amser arnynt i baratoi
- Roedd angen cynnal cyfarfodydd y grŵp cyfeirio'n agosach at amser cyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y pynciau'n glir yn eu meddyliau
- Roedd angen mwy o wybodaeth ar aelodau'r grŵp cyfeirio gan y cyflwynwyr cyn eu cyfarfodydd

- Roedd Aelodau'r Cynulliad yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd i ddechrau, ond nid cymaint erbyn hyn
- Weithiau, nid yw pobl ifanc yn gallu mynychu'r cyfarfodydd oherwydd eu bod yn yr ysgol neu'r coleg
- Roedd y cyfarfodydd paratoi yn rhy hir i rai pobl
- Roedd aelodau'r grŵp cyfeirio'n eistedd ar wahân i Aelodau'r Pwyllgor a chanlyniad hyn oedd bod cyflwynwyr yn siarad ag Aelodau'r Pwyllgor yn hytrach na hwy
- Nid yw'n glir sut caiff yr agenda ei benderfynu
- Ni chaiff rhai grwpiau anabl eu cynnwys
- Nid wyf yn siŵr beth yw gwaith Aelodau'r Cynulliad a sut y mae'r system yn gweithio

Yr hyn sydd angen ei wneud

- Atgoffa cyflwynwyr i roi tystiolaeth mewn iaith y gall pawb ei deall. Ateb cwestiynau yn yr un ffordd
- Awgrymwyd y dylid gefeillio Aelodau'r Pwyllgor ag unigolion o'r grŵp cyfeirio. Gall y parau eistedd gyda'i gilydd mewn cyfarfodydd a gall y person ifanc ofyn i'r Aelod lefaru ar ei ran
- Efallai y byddai hefyd yn hwylus pe byddai egwyl rhwng y sesiwn dystiolaeth a'r bobl ifanc yn gofyn cwestiynau, er mwyn rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc hel eu meddyliau at ei gilydd
- Dylai'r cyflwynwyr roi tystiolaeth ymhell ymlaen llaw. Gellir gwella ar hyn ymhellach drwy ofyn i'r cyflwynwyr nodi tri neu bedwar pwynt y maent yn bwriadu'u gwneud.
- Dylid cynnal cyfarfodydd paratoi mor agos â phosibl i amser cyfarfodydd y Pwyllgor, gan ymdrechu i drefnu cyfarfodydd fel bod dim ond angen ymweld â Chaerdydd unwaith
- Dylai Aelodau'r Cynulliad fanteisio ar y cyfle i gwrdd ag aelodau'r grŵp cyfeirio yn ystod y cyfarfodydd paratoi a gynhelir yng Nghaerdydd
- Awgrymu bod y grŵp cyfeirio'n penderfynu pa gwestiynau y mae am eu gofyn mewn cyfarfodydd yn y dyfodol a hysbysu'r Clerc o hyn. Yna, bydd y Clerc yn ymgynghori â'r Cadeirydd ac Aelodau i drafod pa sefydliadau y dylid eu gwahodd i ateb y cwestiynau hynny a gwneud trefniadau priodol
- Gall aelodau'r grŵp cyfeirio hysbysu pobl ifanc anabl eraill am yr hyn sy'n digwydd drwy rannu eu profiadau yn ystod ymweliadau â grwpiau eraill, ysgolion a cholegau, neu efallai drwy gynhyrchu DVD ar waith y grŵp. Gall hyn gynnwys cyfraniad ariannol gan y Cynulliad.

Pwy ddylai wneud beth

- Cyfrifoldeb yr hwyluswyr a'r grŵp cyfeirio eu hunain yw gwneud trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd paratoi. . Fodd bynnag, gall y tîm clercio gynorthwyo â'r broses drwy roi rhybudd ymlaen llaw o gyfarfodydd a'r Flaenraglen Waith, a thrwy ofyn i gyflwynwyr am gopi o'u tystiolaeth ymlaen llaw, ynghyd â chrynodeb o'r tri neu bedwar prif bwynt y maent am eu gwneud.
- Bydd yr Aelodau'n nodi'r sylwadau ynglŷn â siarad yn araf. Bydd y tîm clercio'n pwysleisio hyn ynghyd â'r cyngor ar iaith briodol i'w defnyddio, yr angen i ddileu jargon a'r angen am gyflwyniadau byr a manwl i *ategu* eu tystiolaeth ysgrifenedig wrth gysylltu â chyflwynwyr.

Gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Dywedir wrth sefydliadau a wahoddir i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar ei adolygiad polisi, i gynhyrchu trawsgrifiad ysgrifenedig o'u tystiolaeth bythefnos cyn y cyfarfod. Atodir hyn gan bapur cryno sy'n amlygu tri neu bedwar o'r prif bwyntiau a wneir. sgrifennir papurau o'r fath mewn iaith y gellir disgwyl i'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y grŵp cyfeirio ei deall.
- Dywedir wrth sefydliadau a wahoddir i roi tystiolaeth na fydd angen iddynt roi cyflwyniad llafar yn ailadrodd y dystiolaeth a ddarparwyd ganddynt yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Dylid cyfyngu cyflwyniad o'r fath i sylwadau rhagarweiniol. Bydd hyn yn rhoi rhagor o amser i Aelodau'r Pwyllgor a'r bobl ifanc ofyn cwestiynau.
- Caiff sefydliadau a wahoddir i roi tystiolaeth eu hatgoffa bod angen cadw'u hiaith yn syml, gan osgoi acronymau ac ati wrth ateb cwestiynau gan Aelodau a'r bobl ifanc. Dylid eu hatgoffa hefyd y dylent gyfeirio eu hatebion at yr aelodau hynny o'r grŵp cyfeirio sy'n gofyn cwestiynau, ac nid at y Cadeirydd nac Aelodau eraill o'r Pwyllgor.
- Cynnal cyfarfodydd y grŵp cyfeirio'n agosach at amser cyfarfodydd y Pwyllgor - y diwrnod cynt os yw'n bosibl. Bydd y trefniant hwn yn cynorthwyo aelodau'r grŵp i ganolbwyntio ar y materion dan sylw a lleihau nifer y siwrneiau y bydd yn rhaid i'r bobl ifanc eu gwneud i fynychu'r cyfarfodydd.

- Rhennir cyfarfodydd y grŵp cyfeirio'n ddwy sesiwn, un i fynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â chwestiynau penodol i'r cyflwynwyr yn y cyfarfod hwnnw a'r ail i nodi cwestiynau y maent am eu hystyried yn y cyfarfod nesaf. Dylid anfon y cwestiynau a godir yn yr ail sesiwn at Glerc y Pwyllgor Cyfle Cyfartal cyn gynted â phosibl.
- Y Clerc i drafod gyda'r Cadeirydd (ac Aelodau eraill y Pwyllgor) pa sefydliadau yw'r rhai gorau i'w gwahodd i ateb y cwestiynau a godwyd gan y bobl ifanc a gwneud y trefniadau angenrheidiol.
- Y Flaenraglen Waith i nodi pryd y bydd yn ofynnol i aelodau o'r grŵp cyfeirio fynd i'r Pwyllgor, a sefydlu rhaglen o gyfarfodydd y grŵp cyfeirio
- Aelodau i gysylltu â'r bobl ifanc yn ystod cyfarfodydd y grŵp cyfeirio neu yn syth ar ôl y cyfarfodydd. Efallai y bydd y flaenraglen o gyfarfodydd y grŵp yn caniatáu i aelodau'r Pwyllgor gynnwys cyfarfodydd o'r fath yn eu dyddiaduron.
- Gefeillio Aelodau unigol ag unigolion o'r grŵp cyfeirio. Pan fydd aelodau priodol o'r grŵp yn mynychu'r Pwyllgor dylent eistedd wrth ochr yr Aelod Seneddol sy'n efaill iddynt
- Aelodau o'r grŵp cyfeirio i ymweld â grwpiau eraill o bobl ifanc anabl er mwyn rhannu eu profiadau o weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a hefyd trafod pa faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc anabl y dylid eu codi gyda'r grwpiau hyn.

Mae Aelodau'r Pwyllgor yn credu ei bod yn werth cofnodi'r pwyntiau hyn fel enghreifftiau o arfer da sy'n gymwys i Bwyllgorau y tu mewn a thu allan i'r Cynulliad.

Atodiad Ch

Tystiolaeth ysgrifenedig

Cyngor Sir Ynys Môn

ASBAH

Barnardo's

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Bwrdd Iechyd Lleol/Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg

Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro

Tîm Cymorth i Deuluoedd Caerfyrddin/Dinefwr

Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin

Y Gwasanaeth Addysg Catholig

Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru

Fforwm Gofalwyr Ceredigion

Tîm Cymorth i Deuluoedd Ceredigion

Chwarae Teg

Dinas a Sir Abertawe

Dinas Caerdydd

Cyngor Iechyd Cymuned – Ceredigion

Dysgu Cymunedol, Gwasanaethau i Bobl Ifanc, Addysg i Oedolion, Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Hamdden

Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych

Ffederasiwn Cynghorau Iechyd Cymuned Conwy

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Cymdeithas Pobl Fyddar Cymru

Adran Iechyd Plant – Ysbyty Brenhinol Gwent

ELWa

Estyn

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd

Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Cyngor Gwynedd

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful

Grwp ME Canolbarth a Gorllewin Cymru

Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

NCH Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon - Wales

Cyngor Sir Powys

Bwrdd Iechyd Lleol Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

RNIB Cymru

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Scope Cymru

Sgil: y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Myfyrwyr ag Anableddau

Athrofa Addysg Uwch Abertawe

Cyngor Chwaraeon Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Grwp Cyfle Tor-faen

Triongl

UWIC

Cyngor Bro Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Sir Ynys Môn

Ysgol Gyfun Llanbed

Atodiad D

Tystiolaeth lafar

Grwp Mynediad Arfon

Trenau Arriva

Cymdeithas Dyslecsia Prydain

BusUsers UK yng Nghymru

Gyrfa Cymru

Coleg Llandrillo

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dirprwy Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Anabledd Cymru

ELWa

Estyn

Cymdeithas Cynllunio Teulu

Cyngor Sir y Fflint

Mencap Cymru

Y Trefnydd a'r Gweinidog dros Gydraddoldebau a Phlant

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Undeb Cenedlaethol yr Athrawon - Cymru

Cyngor Sir Benfro

Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda

Remploy Interwork

Scope Cymru

Ymddiriedolaeth Shaw

Sgil: y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Myfyrwyr ag Anableddau

TUC Cymru

Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ran y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ran y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ysgol Hendre, Castell-nedd

Atodiad Dd

Aelodau'r Grwp Cyfeirio Pobl Ifanc Anabl a'u gweithwyr cymorth

Hwyluswyr

Tim Ruscoe
Julie Mair Ward

Cyfle – Barnardo's Cymru

Person Ifanc – Heather Graham
Person Ifanc – Hannah Kubler
Person Ifanc – Jessica Roberts

Staff - Gail Banks
Staff - Gareth Edwards
Staff - Glenys Griffiths
Staff - Victoria Parry
Staff – Yvonne Williams

Dynamic

Young Person - Robert Surrey

Staff – Mike Davies
Staff - Samantha Challis
Staff - Ray Clarke
Staff - Carol Gardner
Staff - Craig Harry
Staff - Philippa Horsefall
Staff - Edward Johns
Staff - Marie Shwartz

Prosiect Viva!

Person Ifanc - Keri Haines
Person Ifanc - Richard Harris
Person Ifanc - Gareth Morgans

Staff - Zoe Richards

Young Voices for Choices

Person Ifanc - Amy Barrett
Person Ifanc - Lynsey McCarthy

Staff - Nadine Farmer
Staff - Judith McNamara

Rhoi Pobl yn Gyntaf - Caerdydd

Person Ifanc -Stacie Edward
Person Ifanc - Richard Horrigan
Person Ifanc - Simon Richards

Staff – Joanna Bond
Staff - Davida Hewlett
Staff - Anna Suschitzky

Mencap

Person Ifanc - Stephen Dyer
Person Ifanc – Scott Randall

Staff - Wayne Crocker
Staff - Sue Edwards
Staff - Dawn Gullis

Interplay

Person Ifanc - Daniel Beynon

Staff - John Thomas